YR YMOFYNYDD.

Rhif. 16.] EBRILL, 1860. [Ail Gyfres.

DADLEUAETH.

Os nad oes, yn yr ystyr eangaf, dim newydd dan yr haul, mewn ystyr berthynasol i ni mae pob peth yn newydd â pha un nid oeddem o'r blaen yn gydnabyddus. Pa bryd bynag y darganfyddom unrhyw beth, y mae yn newydd i ni; a bydd yn newydd i bob un pan wnelo y darganfyddiad drosto ei hunan. Fel nad ydys ond yn graddol ddarganfod y byd gweledig, y ddaear a'r bydoedd o amgylch, ynghyd a'r defnyddiau o ba rai y gwneir hwynt i fynu; yn gyffelyb, graddol yw darganfyddiad gwahanol wirioneddau, a'u cysylltiad y naill a'r llall. Ac megys wrth ddarganfod unrhyw wrthrych yn y byd gweledig y ceir golwg wahanol arno, yn ol y cyfeiriad o'r hwn y deuir o hyd iddo, a'r saf-bwynt a gymerir tuag ato, felly gyda gwirioneddau moesol ac ysprydol, gwisgant agweddau gwahanol yn ol y llwybrau gwahanol trwy y rhai y cyrhaeddir hwynt, a'r manau amrywiol oddiar ba rai yr edrychir arnynt. Mae mwy o ddadleuon yn ddiau wedi codi oddiar fod yr un gwirionedd yn cael ei ystyried mewn gwahanol ffyrdd, neu ei weled o gyfeiriadau gwahanol, nag oddiar un achos arall; oblegyd gormod fyddai tybied fod yr holl wir, a'r gwir digymysg, yn meddiant unrhyw un o'r pleidiau gwrthwynebol, serch y gall yn hawdd fod mwy o hono gan un blaid na chan y llall. Dyna y rheswm y dywedai Coleridge nad yw y rhan fwyaf o ddadleuon ond amrafaelion ynghylch haner gwirioneddau. Er nad oes achos, os mai felly y mae, i edrych yn fach ar ddadleuaeth, gan y galluogir ni, trwy osod o'n blaen y ddwy haner, i gael allan y gwirionedd cyfan. Pan fo yr helwyr yn curo dwy ochr y berth, oni bydd yn un ledan a dyrys iawn, odid na ddeuir o hyd i'r lle y gorwedd yr ysgyfarnog.

Yn awr, er nad oes yn y byd neb ag sydd wedi bod yn yr arferiad o feddwl rhywfaint drosto ei hun, nad yw wedi bod ryw dro yn ei oes mewn dadl, fel nad oes neb a fu erioed yn pigo ei ffordd yn groes i fynydd na fu yn petruso pa lwybr o gant i gymeryd; eto mae dadleuaeth mewn llawer mwy o ffafr gan rai nag eraill. Drwg, serch mai drwg diochel fel y frech goch, er hyny, *drwg* yw pob dadleuaeth yn ngolwg rhai. Gwingant yn ei herbyn, a gwridant rhagddi, fel y gwna ambell wladwr gwylaidd, pan y gorfydd iddo ymddangos yn nghell y tystion yn y llys. Byddai gystal ganddynt, a thybient hi mor enillfawr, fyned i gyfraith ag i ddadl. Pan y maent yn argyhoeddedig o gyfeiliornedd unrhyw olygiad, gwell fyddai ganddynt weled claddu y cyfryw yn y crynswth allan o'r golwg, yn dihuno y drygsawr o fewn trwy ei drin a'i droi mewn dadl. Dynion araf, llonydd, dystaw, na charent o'r braidd fod eu traed yn gadael eu hol lle cerddont. Dynion na hoff-

ent i'w calon guro yn gyflymach na rhyw ddeg a thriugain bob mynyd. Dynion digyffro, difraw a disyndod, nad ynganent air pe taerid wrthynt i'r haul bore ddoe godi yn y gorllewin. Barnant fod y byd yn ddigon eang i bawb gymeryd ei lwybr ei hun, heb groesi yr eiddo arall. Mae rhai o honynt yn hoffi gwrando ar ddadl yn fwy na dim arall, ond iddynt gael sefyll yn ddigon pell rhag i rai o'r gwreichion eu cyrhaedd. Maent fel rhai dynion, na welwyd erioed yn rhedeg hyd dori anadl yn mhlith yr helwyr, ond ydynt mor barod a neb i neidio, a hyny gydag ystwythder gwerth ei ganfod, i frig perth, os deallant fod y cadno wedi ei redeg i lawr. Gwyddant hanes dadleuon, a charant eu hadrodd, yn gyffelyb ag yr adroddant hanes brwydrau. Maent yn gydnabyddus â'r prif ddadleuwyr trwy y wlad; âg un a aeth wrth ddadleu i fod yn Armin, un arall yn Ariad, a thrydydd yn Undodwr. Ac y maent wedi clywed fe allai am ryw ddyn o'r hen amser, a elwid Sostatus, yr hwn, gan liosogrwydd y dadleuon y cymerasai ran ynddynt, o'r diwedd a fethodd gael dim y gallai ei gredu. Maent rywfodd wedi dod i'r casgliad fod tuedd mewn dadleuaeth i symud rhagfarnau, ac i eangu y meddwl, gan nad ydynt erioed braidd wedi cael allan fod neb wedi dadlu ei hun i Antinomiaeth neu Galviniaeth. Barnant fod rhywbeth yn hyna. Ond am danynt eu hunain, pobl heddychol ydynt. Ofnant ymddiried eu cerbydau ar hyd llethri llithrig dadleuaeth rhag i ryw ddamwain anniben wneud esiampl o honynt.

Am eraill, dadleu yw yr ymarferiad sydd yn cadw olwynion eu meddwl rhag rhydu a sefyll. Yma mae eu mawr nerth. Nid ymhyfrydant mewn dim yn fwy nag mewn ymaflyd yn ngholofnau credo gwrthwynebwr, a dymchwelyd yr holl adeilad am ei ben. Ond iddynt ei gael rhyngddynt a'r gwynt, nid yw y "milgi cryf ei feingefn" yn fwy ystig nac yn fwy ffroendeneu na hwy. Mae eu "dwylaw wedi eu dysgu i ymladd, a'u bysedd i ryfela." Yr holl wybodaeth sydd ganddynt, troant hi i ddybenion ymosodol, fel pe troai un ei sychau yn gleddyfau a'i bladuriau yn waywffyn. Mae eu saethau yn dyn ar y bwa bob amser. Maent mor gyfarwydd â holl fudiadau a threfniadau dadl ag yw y milwr âg eiddo brwydr. Os nad diogel iddynt ymosod ar unwaith ar eu gwrthwynebwr, gadawant iddo dwyllo ei hun fod y fantais o'i du; gwnant ef yn esgeulus a diofal; arweiniant ef yn ddiarwybod iddo ei hun, o fan i fan, yn ol ac yn mlaen, nes cael cyfle teg i roi yr ergyd marwol. Maent yn dra chyfarwydd â thir y gelyn; nid oes wersyllfa na wyddant ei hamgylchoedd, nac ogof nad yw ei holl droion yn hysbys iddynt, nac amddiffynfa nad ydynt wedi mesur ei nerth. Fel y dysgybla cadlywyddion eu catrodau trwy rith-frwydrau; yn mha rai y perir i'r olaf ymddwyn yn gywir, fel pe byddai y gelyn gyferbyn; dysgyblant hwy eu hunain i ddadleu, trwy ddychymygu gwrthwynebwyr, pan na fo un mewn gwirionedd. Meddant un fantais dda i orchfygu, gan na ellir dyfod ar eu gwarthaf pan nad ydynt yn gwylio. Os dychymygant weithiau weled gwrthwynebwr, lle nad oes yr un, gan ymladd dyn gwellt yn lle gelyn sylweddol, fel y camsyniai Don Quixote gynt y felin wynt am farwn llurigog—ba waeth am hyny? Y mae eu gwroldeb yn ddifrycheulyd, a'u deheurwydd yn gan gwell o'r ymdrech.

Dynion esgeiddig ydynt, penfaith, llygadlym, cyflym-droed, cadarnfraich, beiddgar a di-ildio, a llwyddant yn gyffredin i wneyd i fyddinoedd yr estroniaid gilio. Dyddan yw i ddyn dyeithr gwrdd ar daith yn ddamweiniol â'r rhai hyn. Nid hir y byddant heb gael allan ei farn; amgylch-

ant, holant, a thynant ef allan. Ni byddent yn fwy rhydd ac eon pe yn swyddogion y brenin, ac â gwarant ganddynt yn erbyn pob heretic, h. y. pob un a wahaniaetho oddiwrthynt hwy mewn barn. Mae genyf ddiolch iddynt er y cwbl, oblegyd gwaethant i lawer siwrne faith ymddangos yn fyr, gan nas gall dyn a fo bob mynyd yn ymddiffyn ei hun am ei hoedl, feddwl nemawr am feithder y ffordd a dramwya. Yn ngwaelod eu calon, hefyd, y maent yn fynychaf yn garedig, a medrant chwerthin yn iach ac awchus, yn enwedig os try mantol buddugoliaeth i ryw fesur o'u tu. Gwyddoch ar y pryd na laddant chwi, am na chaent wedyn y pleser o'ch pigo a'ch poeni. Coffa da am danynt! nad o ba farn. Rhoddwn lawer y fynyd yma am olwg ar eu copäu moelion a'u llygaid byw treiddgar, ac am ddadl frwd a chynhyrfus â hwy am awr neu ddwy. Mae cwrdd â hwynt mor ddifyrus ag yw cwrdd â hen filwr wedi diosg ei liwiau ond nid y creithiau a dderbyniodd yn anrhydeddus ar lawer maes, a chanddo lu o hanesion cyffrous am gadgyrchoedd ac ymosodiadau yr amser gynt. Perthyn iddynt yr ymddangosiad hwnw o hunanddigonoldeb a phwysigrwydd a ganfyddir bob amser mewn dynion yn credu eu bod yn gwneud eu gwaith ac yn llanw eu swydd gyda ffyddlondeb ac effeithiolrwydd. Cydsyniant ag Awstin pan ddywedai nad oes yr un au-athrawiaeth heb ryw gymaint o wir yn gymysg â hi, a chredant mai eu dyledswydd hwynt yn anad neb yw chwilio allan a nithio oddiwrth bob us hereticaidd, y gwir hwn. Ac ni chenfigenwn wrth y driniaeth a dderbyniai Esgob Sanderson oddiwrthynt, pe y caent afael arno, arn y geiriau canlynol o'i eiddo:—"Ni wna lliosogi llyfrau ac ysgrifeniadau dros ac yn erbyn rhyw farn, a dilyn ymresymiadau gyda gwres a gwrthwynebiad, ond *hwyhau* yn hytrach na phenderfynu dadleuon; ac yn lle rhoi terfyn ar yr hen, dechreua ddadleuon newydd." Barnant mai un o'r pethau mwyaf anfuddiol yw gwybodaeth o'r fath a feddant hwy, os na chyfranant hi i eraill trwy gyfrwng dadleuaeth. Canys, meddant, beth ydych yn well o swn y felin heb y blawd? Gair heb weithred nid yw amgen na chwmwl heb wlaw, neu fwa heb linyn.

Mae eto ddosparth lliosocach a mwy clodadwy nag un o'r rhai uchod, yn cael ei gyfansoddi o'r cyfryw a'r nad ydynt yn chwanog i ddadleuaeth, tra ar yr un pryd y maent yn barod i amddiffyn yr hyn a ystyriant yn wirionedd, pan fo galwad am hyny. Nid ydynt gynhenllyd ac ymladdgar; nid ydynt ychwaith ddiog a dizel yn wyneb ymosodiad. Daliant ei bod mor iawn i ddyn ymddiffyn ei hawliau moesol ac ysprydol ag yw iddo ymddiffyn ei berson. Nid ydynt byth a hefyd yn llygadu am gyfle i dorfynyglu rhyw un o olygiadau gwrthwynebol; ond pan y gorfyddir hwynt i'w alw allan, nid buan y dychwel eu cleddyf i'w wain. Fel yr afon fawr, a borthir gan fan ffrydiau a nentydd y mynyddoedd, na chwydda yn aml dros ei glanau, ond pan y gwna, na ddychwel ar frys i'w gwely blaenorol, ni themtir hwy yn hawdd i dori ar draws cwrs tawel a chyffredin eu bywyd; ond pan y gwneir, ni suddant yn ol iddo heb olchi ymaith wrthgloddiau a noddfeydd ymwared eu gelynion, ar y naill law a'r llall. Nid ydynt hoff o gyfarth ac ysgyrnygu gyferbyn a gwersylloedd y Philistiaid; ond pan ddaw rhyw Goliath tafodrydd a gwynt-eiriog allan i gablu, caiff deimlo mai mewn dystawrwydd y mae ei ddiogelwch penaf. Maent yn golofnau y blaid y perthynant iddi; yn berchen ar wybodaeth helaeth, ffraethineb parod, amynedd ddiflino, deheurwydd meistrolaidd, ac ar fanylwch a chraffder difeth. Nid oes raid iddynt pan ddel y taro i wibio oddiamgylch i fenthycca y wybodaeth angenrheidiol;

mae hi eiddynt yn barod, yn gorwedd yn nghelloedd eu trysorau. Y cyfan sydd yn ofynol iddynt yw troi eu nerth at y garchwyl mewn llaw. Mae eu natur, yn y cyffredin, yn llawn o ddigrifwch iachus; nid mewn drwg nwydau yr ysgrifenant, ond â gwen siriol ar eu gwyneb, digon i gywilyddio pob surni a chulni yn eu gwrthwynebwyr. Nad pa mor ddwfn a llydan eu doethineb, chwery sirioldeb gwastadol ar y wyneb, fel ar wyneb yr afon ddofn a mawreddus; ac ar ambell dro, fel y tyr yr afon allan mewn crŷchiau grisialaidd o chwerthin, hwythau a ymollyngant weithiau, yn holl ieuenctyd a nwyfiant cynhenid eu natur i fwynhau iasau o orfoledd rhydd a diniwed. Nid y gwir ddadleuwr yw yr hwn y mae prudd-der a thywyllwch parhaus yn crogi ar ei ael, a llinynau ei wynebpryd wedi eu crebachu ynghyd, fel pe i warchae pob sylw cynes a phob brawddeg gariadus rhag dianc dros ei enau. Nis gad i ddrwg-dybiaeth gythryblu ei natur dda, na'r awydd i orchfygu fogi haelfrydedd ei galon. Gall gael ei gynhyrfu, ond nid ei yru i fod yn anfoneddigaidd. Gad i bob awgrym bersonol fyned heibio, fel saeth wedi methu yn ei hamcan; ni chymer sylw o ddim ond yr hyn a berthyn yn uniongyrchol i'r pwnc mewn dadl. Nis gofala i ddal ar yr ymadroddion pigog y dichon i'w wrthwynebwr eu harfer, mwy nag y gofala y trafaelwr am y cerig y dichon iddo daro ei droed wrthynt, neu yr heliwr yn yr eithin am y drain a ddygwyddont ogleisio ei gnawd. "Y neb a ddalio ar y gwynt, ni haua, a'r neb a edrycho ar y cymylau, ni feda." Nid yw yn frysiog a gwyllt yn ei haeriadau, fel pe nas gwyddai pa bryd i sefyll mwy na chareg yn ei threigl tua'r cwm. Nid baich yw ei wybodaeth, yn crogi wrth ei wddf, gan ei dynu i lawr nas gwyr i ba le. Mae yr oll a wyr at ei arch, ond nid yw efe at drugaredd ei wybodaeth. Gwisga ei wybodaeth fel llwyth o flodau teg, neu arlant ddillyn o amgylch ei arleisiau, gan ysgogi rhagddo yn ysgafndroed a gwylaidd.

Rhaid addef, er hyny, nad yw llawer o'r rhai hyny ag ydynt wedi teimlo eu hunain o dan rwymau i ddyfod allan dros y gwirionedd wedi ateb i'r nodau uchod. Mor anhawdd ydyw cadw o fewn terfynau priodol! Cymysgedig ac amherffaith yw teilyngdod dadleuon, fel eiddo pob cyflawniad dynol. Ac y mae y fath brofedigaeth wrth ddadleu i'r pleidiau gwrthwynebol adael i'w rhagfarnau culaf a'u nwydau poethaf gael eu cyffroi a'r tafod i fyned yn aflywodraethus, fel y mae llai o achos synu oblegyd y chwerwder, y digofaint, a'r ffolineb a amlygir yn aml. Mae llawer dadl y byddai cywilydd ar y gwrthwynebwyr eu hunain i'w hadolygu mewn gwaed oer, neu yn nyddiau henaint, os mai yn mrwdaniaeth ieuenctyd y cymerodd le. Bydd llawer o ergydion personol i edifarhau am danynt; ymresymiadau wedi eu gwyrdroi neu eu gadael yn anghyflawn; gwrthddadleuon wedi eu troi o'r neilldu trwy gecraeth ac heb eu hateb; ffeithiau, ond odid, wedi eu camddarlunio, ac amgylchiadau eraill, mwy tueddol i beri gofid na chysur yn yr adolygiad o honynt. Nid anfynych y ceir mai y pynciau lleiaf eu pwys mewn cymhariaeth a achosant y dadleuon meithaf a mwyaf gelyniaethus—pynciau yn perthyn i oes neu wlad neu blaid neillduol; ac oblegyd hyn y mae dyddordeb llawer o ddadleuon pwysig a gwerth eu cofio, naill ai oblegyd eu testunau eu hunain, neu y personau a gymerent ran ynddynt, hyd yn oed pan nad oedd y testunau eu hunain o fawr ganlyniad; neu ar gyfrif yr hyn y darfu i'r cyfryw ddadleuon arwain iddo. A byddai yn ddyddorol ac yn adeiladol iawn, pe yr ymgymerai rhyw un â'r dasg o roddi hanes rhai o ddadleuon hynotaf y canrifoedd a'r oesau o'r blaen yn nhudalenau yr *Ymofynydd*.

ORION.

RHAG-HANFOD CRIST.

LLYTHYR I.

Mr. Gol.,—Os gwelwch y llythyrau a ganlyn yn deilwng o gwrr yn eich misolyn, y maent at eich gwasanaeth chwi a'r cyhoedd. Ymdrechaf fod mor fyrr ag y medraf, rhag blino amynedd eich darllenwyr. Y mae'r pwngc wedi bod yn wrthrych dadl lled boeth yn Lloegr yn ddiweddar, yn yr hon y mae un o'ch gohebwyr galluog wedi cymmeryd rhan. Ond at y pwngc.

Y mae dau *barty* yn dal rhag-hanfod Crist, sef, uchel-ariaid ac isel-ariaid: y mae y blaenaf yn dal mai y cyntaf, y goreu, y mwyaf urddasol o holl *greaduriaid* Duw, yw y *logos*, yr hwn a ddaeth yn y cnawd, pan y cenhedlwyd Iesu Grist; mai'r *logos* yma oedd offeryn Duw yn creu y byd hwn a phob byd arall, ynghyd a'u holl greaduriaid a phob peth oll; mai efe ymddangosodd i Moses yn y berth, i Abraham, ac ereill; mai efe oedd cyfrwng yr holl brophwydoliaethau, addysgiadau, a gwybodaeth, dan yr hen oruchwyliaeth. Syniadau yr isel-ariaid sydd debyg i hyn: credant mai bod crëedig yw'r *logos*, yr hwn a greodd Duw ychydig cyn creu y byd yma. Ni ddywedir fod ganddo un gwaith na swydd neillduol cyn ymddangos yn y cnawd; gan hynny nid yw y dyb yn teilyngu fawr sylw; felly awn yn union i chwilio'r blaenaf; sef, uchel-ariaeth.

Y mae llawer iawn o resymau nerthol wedi cael eu dwyn ymlaen yn erbyn yr athrawiaeth hon. Enwaf rai o honynt. Ymddengys yr athrawiaeth hon yn anhebygol iawn, o herwydd os gallwn dybied achos i Greawdwr y byd, fel yr oedd yn amlwg ar y dyb hon, gan mai bod creuedig oedd y *logos*, p'am lai nad oedd achos i hwnw hefyd, ac achos i'r achos hwnw wedi'n, &c., yn ddiderfyn, yr hyn sydd yn arwain i ddidduwiaeth ar unwaith, neu i amldduwiaeth ar y goreu, ac nid yw amldduwiaeth ond ychydig, os dim, yn well na didduwiaeth.

Os oedd y pwerau mawrion, angenrheidiol i greu pob peth, gan yr Iesu fel creawdwr y cyfan oll, yr oeddent ganddo pan yn faban ar liniau ei fam, a phan oedd yn hoeliedig ar y groes, yr hyn sydd ddychrynllyd, os nid yn gabledd i feddwl am Greawdwr y byd. Ac y mae yn ymddangos ymhellach i mi, os oedd y pwerau mawrion hyn ym meddiant yr Iesu pan ar y ddaear, mai trwy ei allu ei hun y gwnaeth efe yr holl wyrthiau a rhyfeddodau, yr hyn sydd hollol groes i'r hyn a ddywedodd ef ei hun;—"Ni allaf fi wneuthur *dim o honof fy hun.*" Y Tad yr hwn sydd yn aros ynnof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd." Ac felly hefyd nid oedd achos iddo weddio oll ar ei Dad, na neb arall, am ei alluogi i wneuthur y gweithredoedd nerthol hynny y rhai y mae ei apostolion ar ei ol ef yn briodoli i Dduw a Thad pawb oll. "Gwr profedig gan Dduw yn eich plith chwi, trwy nerthoedd a rhyfeddodau ac arwyddion, y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef yn eich canol chwi, megis ag y gwyddoch chwithau." Nid oes ond un ffordd i ochelyd hyn, am wn i, sef, dywedyd i'r Iesu ymddifadu ei hun o'r galluoedd rhyfeddol hyn pan ar y ddaear. Os felly, y mae'r meddwl yn ymgynyg yu union fod yn rhaid i ryw fod arall, neu'r goruchel Dduw, gymmeryd at y gwaith o ofalu am y greadigaeth yn y cyfamser.

Ymddengys i mi etto, os mai Iesu Grist ddarfu greu'r byd, ac mai efe sydd yn ei gynnal ef a phob peth oll, yna efe, ac nid neb arall, yw'r gwrthrych addoliad sydd a fynom ni âg ef. At bwy y mae'n naturiol i ni droi mewn caledi ond at yr hwn sydd yn ein cynnal, yn gofalu am danom, ac yn cyfranu ben-

dithion ini'n barhaus? Ar bwy y gweddiwn, ym mhwy yr ymddiriedwn, ond efe yr hwn sydd yn gwrandaw arnom, ac yn barod i'n cynhorthwyo? Felly y mae Crist ar y tir hwn yn wrthrych teilwng o addoliad, yr hyn y mae Dr. Price ac eraill o'r un syniadau ag ef yn wrthod yn hollol. Ac yn awr nid rhyfedd chwaith; gan fod yr Ysgrythyrau yn bendant ar y pwnge nad oes ond un Duw, un gwrthrych addoliad, a *dim* ond UN. Na fydded it' dduwiau ereill ger fy mron i; Clyw, Israel, yr Arglwydd eich Duw, un Arglwydd yw; I ni nid oes ond *un Duw* y TAD; Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un DUW a *Thad* oll, yr hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynnoch oll, Oblegid *un Duw* sydd, ac un cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y DYN Crist Iesu."

Yr ydym yn cael ymhellach mai yr *un Duw* hwn, ac nid neb arall dano, sydd wedi creu y cyfan oll. "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. A Duw a ddywedodd, Bydded goleuni, a goleuni a fu." Canys *efe* a orchymynodd, a hyny a safodd, *efe* a ddywedodd, ac felly y bu." Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, dy waredydd, a'r hwn a'th luniodd o'r groth, *myfi* yw yr Arglwydd sydd yn gwneuthur POB PETH, yn estyn y nefoedd fy HUNAN, lledu y ddaear o *honof fy* HUN." Gallesid meddwl fod ymadroddion o'r fath hyn yn eithaf digon i benderfynu'r pwnc ynghylch creadigaeth y byd; o leiaf; nis gallaf ddyfeisio geiriau mwy eglur, mwy nerthol, mwy pendant ar y matter, gan hynny gadawaf greadigaeth y byd ynghól yr ysgrythyr, heb ychwanegu gair at yr hyn a ddywed hi.

Y mae yr un Duw hwn, y Creawdwr yma, yr hwn a greodd y cyfan ei hunan, yn cael ei alw yn Dad pawb, a Thad Iesu ei hun, "Fy nhad i a'ch Tad chwithau, fy Nuw i, a'ch Duw chwithau." Felly y mae'r Iesu yn gydradd â'i *frodyr*, ei ddisgyblion, ac felly yn is na'r hwn y mae efe yn alw yn Dduw a Thad iddo ef a hwythau; ond nid athrawiaeth y *casgliadau* yw fod Iesu yn is na'r Tad; cefnogir hi gan iaith eglur a phendant yr ysgrythyrau. "Canys y mae fy Nhad yn *fwy* na myfi." Mewn canlyniad yr ydym yn cael ei fod ef yn gweddio yn aml, aml ar ei Dad, yn ymostwng yn hollol idd ei ewyllys ef, "Nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys di, O Dad, a wneler."

Yr ydym yn cael hefyd fod rhai pethau wedi eu cadw oddiwrth yr Iesu, ac wedi eu cadw gan Dduw iddo ei hun yn unig. "Ond am y dydd hwnnw a'r awr honno ni wyr neb, na'r *angylion yn y nef*, na'r MAB, ond y TAD." "Eithr eistedd ar fy llaw ddehau ac ar fy llaw aswy, *nid eiddof fi* ei roddi, ond i'r sawl y darparwyd gan fy NHAD." Y mae'r Iesu hefyd yn cael ei alw yn ddyn *ar ol* ei adgyfodiad yn gystal a chyn hynny: "Iesu o Nazareth, *dyn* profedig gan Dduw," medd Petr ar ol yr adgyfodiad; "Yr ydych chwi yn ceisio fy lladd i, *dyn* a ddywedodd y gwirionedd i chwi, yr hwn a glywais i gan Dduw," medd Iesu ei hun, cyn iddo gael ei osod i farwolaeth a'i gyfodi o feirw.

Yr ydym yn cael hefyd, beth bynag yw urddas ei sefyllfa bresennol, mai cael ei *dderchafu iddi* gafodd yr Iesu, yn wobr am ei ufudd-dod; "*Am hynny* y tra-derchafodd Duw yntau, ac a roddodd iddo enw, yr hwn sydd goruwch pob enw, fel yn enw yr Iesu y plygai pob glin," &c. Fel dyn, ac nid fel Duw, neu fod goruwch-angylaidd, y mae'r Iesu yn dyfod yn *esiampl* briodol i ni i ganlyn ei ol ef, ac yn sail gadarn i'n gobaith am gael ymadael â hen garchar angau, yn ei adgyfodiad cddiwrth y meirw. "Gan fod marwolaeth trwy *ddyn*, trwy *ddyn* hefyd y mae adgyfodiad y meirw." Sail gadarn iawn

yw hon ; ond os Duw neu fod goruwch-angylaidd aeth i'r beddrod, y mae'r prawf yn eisiau etto, ar ein tir ein hunain, y cawn ni ddyfod allan o'r beddrod.

Syniadau'r philosophyddion paganaidd ynghylch rhag-hanfod eneidiau dynion fu'r achos dechreuol, fel yr ymddengys i mi, o'r athrawiaeth o dduwdod priodol a rhag-hanfod Crist.

Ond yr hyn sy'n ymddangos i mi y prawf cryfaf o'r cwbl yn erbyn yr athrawiaeth o rag-hanfod Crist, ac y mae yn ymddangos i mi yn hollol anattebadwy, yw hyn ; sef, nad oes ond *wyth* o ddynion wedi bod ar waith yn ysgrifenu y Testament Newydd, ac o'r wyth hyn y mae *chwech* o honynt, fel yr addefir, yn hollol ddistaw ar y pwngc o rag-hanfod Crist ; sef, Matthew, Marc, Luc, Iago, Petr, a Judas : dim ond *dau*, Ioan, a Phaul, sydd yn cael eu dwyn ymlaen fel tystion dros y dyb. Pa fodd y gallasai hyn fod ? A oedd yn bossibl i dri efangylwr a thri apostol esgeuluso'r athrawiaeth hon, os gwyddent ryw beth am dani ; athrawiaeth sydd yn cael ei hystyried yn awr o gymmaint pwys ? Pan fyddo dynion yn parchu un arall, soniant am y peth goreu a berthyn i'w cyfaill fynychaf o leiaf, os nid bob amser ; ac os bydd y gwir yn eu gorfodi i son am y peth gwaelaf, gofalant, wrth wneuthur hynny, i ddwyn i'r golwg hefyd y peth goreu gydag ef. Annaturiol hollol fyddai ymddwyn yn wahanol. Ond wele chwech o dystion, a phob un o honynt yn caru ei Feistr cystal a'r ddau arall, yn dwyn eu tystiolaeth, tri o honynt yn ysgrifenu hanes bywyd eu cyfaill anwyl, a phob un o honynt yn dysgu dyndod Crist, heb son dim am y duwdod neu'r *bod* goruwch-angylaidd a berthynai iddo. A allasent hwy fod yn gwybod am ryw nattur o'r fath yn perthyn i'r Iesu ? Amhossibl. Ymhellach etto y mae'r ychydig ymadroddion, a dybir fod yn dysgu rhag-hanfod Crist, ymhlith ymadroddion ffigwrol i'r eithaf, a rhai o honynt yn cyfeirio yn bendant at y greadigaeth newydd trwy'r gwirionedd.

Ni awn yn awr i chwilio'r tystiolaethau a dybir fod yn dysgu rhag-hanfod ein Harglwydd Iesu Grist ; ac wrth wneuthur hyn yr wyf yn bwriadu dilyn cynllun Mr. Belsham, gan gymmeryd fy nghenad i dalfyrru, cyfnewid, ac ymhelaethu ar, yr hyn a ddywed ef, ac weithiau ymadael yn hollol ag ef, lle y gwelaf hynny yn angenrheidiol. Ae wrth ddechreu yr wyf yn myned heibio i'r ddau reswm cyntaf dros yr athrawiaeth, sef fod yr Iuddewon yn disgwyl eu Messia yn un ag oedd yn rhag-hanfodi ; gan nad wyf yn cael un sail yn y byd i'r cyfryw dyb ; a'r rheswm nesaf sydd gyffelyb iddo, sef, y casgliad a dynnir oddiwrth y cenhedliad gwrthiol dros rag-hanfod Crist ; gan nad wyf yn gweled un lle i dynu'r fath gasgliad, rhagor na dychymmyg yn unig, a chaniattau fod y cenhedliad gwrthiol yn wir. Af ymlaen gan hynny at

Ragymadrodd efengyl Ioan. "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth : ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd." Y mae y rhan amlaf o'r Undodiaid yn esponio'r geiriau uchod am y greadigaeth newydd. Mai prophwyd Duw oedd Iesu Grist, iddo neillduo i'r anialwch, megis yr aeth Moses i'r mynydd, ar ddechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus ; iddo dderbyn addysgiadau a chymwysderau i gyflawni ei swydd oddiwrth Dduw ; ei fod fel brenhin yr oruchwyliaeth newydd yn deilwng o'r enw *duw* ; ond mewn ystyr llawer îs na phan y cymhwysir ef i Dduw ; i bob peth a berthyn i'r oruchwyliaeth newydd gael ei gyflawni gan Grist neu ei apostolion. Y

mae Dr. Priestley, o hono yntau, â'r hwn yr wyf yn cyttuno, yn meddwl mai amcan Ioan oedd gwrthwynebu cyfeiliornad ag oedd y pryd hynny wedi ymddangos yn y byd, sef mai nid Duw oedd awdwr sylwedd na'r rhan ddacarol o ddyn, na dim amherffaith arall; mai gwaith is-dduw oedd y pethau hyn; y mae'r Doctor yn meddwl fod Ioan yma yn gwrthwynebu'r dyb hon, gan ddysgu fod doethineb ar y cyntaf gyda Duw yn creu y cyfan; ac mai Duw ei hun oedd y doethineb hwnw; fel na fuasai iddynt feddwl ei fod ef yn dysgu dau fôd dwyfol. Fod yma gyfeiriad amlwg at waith Duw ar y cyntaf, yn creu'r cwbl megis trwy air, pan ddywedodd, "Bydded goleuni, a goleuni a fu." Yr hyn sydd yn cadarnhau'r dyb hon ydyw, ei bod yn sicr fod Ioan yn ei lythyrau'n gwrthwynebu'r sect hon, un o ddaliadau pa rai oedd nad dyn mewn gwirionedd oedd y Crist; eithr yn ol tyb rhai, mai ar ei waith yn cael ei fedyddio y daeth y Crist arno, yr hwn a'i gadawodd drachefn pan ar y groes, pan ddywedodd, "Fy Nuw, fy Nuw, paham i'm gadewaist." Ereill a dybient mai dim ond rhith cnawd oedd ganddo, ac felly na ddioddefodd ef ddim mewn gwirionedd. Gan fod Ioan yn gwrthwynebu y sect hon yn ei epistolau, y mae yn eithaf tebyg fod yr un parti ganddo mewn golwg yn ei efengyl hefyd.

Ydwyf yr eiddoch,

N.

YR UNDODWR A'R TRINDODWR.

Mr. Gol.,—Os ydych yn barnu fod y nodyn a ganlyn, o eiddo y diweddar Esgob Watson (gynt o Landaf), yn deilwng o le yn yr *Ymofynydd*, y mae at eich gwasanaeth. Dyma beth a ddywedodd efe am y ddau barti uchod:—

"Os yw gwahanol ddynion, wrth chwilio i mewn yn fanol a chydwybodol i'r Ysgrythyrau, yn dyfod at wahanol gasgliadau hyd yn nod ar bynguiau mwyaf eu pwys; yr ydym yn hyderu y bydd i Dduw, yr hwn yn unig sydd yn gwybod yr hyn ag y mae pob dyn yn alluog o hono, i fod yn drugarog tuag at yr hwn sydd mewn cyfeiliornad. Yr ydym yn hyderu y bydd iddo faddeu i'r Undodwr, os yw mewn cyfeiliornad, oherwydd ei fod wedi syrthio iddo oddiar arswyd i ddyfod yn eulunaddolwr, a rhoddi i arall y gogoniant i'r mae yn tybied sydd ddyledus i Dduw yn unig. Os yw addolwr Iesu Grist mewn cyfeiliornad, yr ydym yn hyderu y bydd i Dduw faddeu ei gamsyniad, oherwydd ei fod wedi syrthio iddo oddiar arswyd o anufuddhau i'r hwn ag y mae efe yn dybied sydd wedi ei amlygu mewn perthynas i nattur y Mab, neu a orchymynir mewn perthynas i'r anrhydedd a roddir iddo ef. Y mae y ddau yn cael eu cyffroi gan yr un egwyddor, sef 'ofn Duw,' ac er fod yr egwyddor hono yn eu gorfodi i wahanol ffyrdd, ein gobaith a'n cred ni yw, os bydd iddynt 'ychwanegu at eu ffydd *gariad*' y cydgyfarfyddant yn y nef."

Wrth feddwl yn ddwys am yr yspryd boneddigaidd ag sydd yn rhedeg trwy y dernyn uchod, nis gallaswn lai na gofyn, Pa le ceir esgob neu offeiriad, yn y dyddiau presenol, a fentrai ddywedyd yr un peth ag Esgob Watson?

E. W. L.

Y mae yr ysgolfeistr yn sefyll wrth ffynhonell, ac yn rhoddi cyfarwyddyd i afon bywyd. Dysgl yw'r galon, yr hon sydd yn wag hyd nes byddo yn llifo drosodd. Nid oes genym ddim i'w fwynhau nes byddo genym ryw beth i'w roddi. Y dyn hwnw yn unig sydd yn byw, yr hwn sydd fel dwfr rhedegog, ac nid y dyn sydd fel cronfa.

MICHAEL SERVETUS.

(Parhad o tud. 70.)

Ar y dydd olaf o Awst, daeth Captain palas brenhinol Vienne (a gyfenwir Prif Geidwad y carchar) â llythyr oddiwrth Ustusiaid yr heddwch y ddinas honno at Ustusiaid Geneva, yn yr hwn y diolchent am hysbysu iddynt fod Servetus wedi ei ddal; a dymunasant ar iddo gael ei anfon yn ol i Vienne, fel y byddai eu dedfryd hwynt i gael ei chyflawni arno. Pan oedd Servetus o flaen y llys, a'r Captain neu geidwad y carchar wedi dysod i mewn, gofynodd y Barnwyr i'r carcharor, P'un ai aros yn Geneva, neu fyned yn ol i Vienne gyda cheidwad y carchar, yr hwn ddaethai i'w ofyn, ydoedd ei ddymuniad ef? Ar hyn syrthiodd ar y llawr yn doddedig gan ddagrau, ac erfyniodd yn ostyngedig ar y Barnwyr i beidio a'i anfon ef yn ol; ond i'w brofi ef yn Geneva, ac i ymddwyn tuag atto fel yr ystyrient yn gymmwys. Dyma olygfa a gyffrôai galon braidd pob dyn ond y chwil-lyswr (*inquisitioner*). Alltud tlawd, digyfaill a diymgeledd, yn cael ei gymmeryd i fynu pan oedd yn passio trwy eu dinas, ymha le ni wnaeth iddynt unrhyw niwed—a chael ei garcharu, o herwydd nad oedd o'r un farn a hwynt, a hwy ar y pryd yn gwahaniaethu oddiwrth y rhan amlaf, ac yn ddiweddar wedi ymneillduo oddiwrth eglwys Rhufain! A thra yr oedd ar y llawr wrth eu traed, yn llawn dagrau yn erfyn eu nawdd a'u trugaredd, ni feddai eu clustiau na'u calonau gydymdeimlad na thynerwch! Cadwasant ef yn unig rhag dychwelyd i Vienne, fel y gallent gael y gogoniant o'i losgi ef yn Geneva!! A all dynion marwol drin y naill y llall fel hyn, a gobeithio am drugaredd oddiwrth Dduw?

Dychwelodd ceidwad carchar Vienne yn ol heb Servetus, ar ol iddo gael tystiolaeth ysgrifenedig oddiwrtho ef, iddo ddiane heb ei gynnorthwy na'i gydweithrediad ef. Pallodd Servetus enwi y personau oedd mewn cydnabyddiaeth ag ef, neu y rhai oeddent yn ei ddyled yn Ffraine. Medi 1af, ymddangosodd Calvin yn y llys dracheſn, a chafodd ddadl arall â'r carcharor ond er lleied o les ag o'r blaen. Medi 15, anfonodd Servetus ddeiseb at y Barnwyr, gan ddymuno arnynt i derfynu yr achos, ac i hysbysu ei fod ef yn cael ei ysu gan *lau*—fod ei lodrau wedi treulio yn hollol—ac nad oedd ganddo un arall hebddo, na chrys ond un gwael iawn; ac ar ddiwedd ei ddeiseb, hysbysodd y dylai Calvin gael ei gospi fel 'cyhuddwr anghyfiawn" ac achosydd ei holl drueni ef. Mewn deiseb arall diwedda fel hyn, "Yr wyf yn taer erfyn arnoch, fy Arglwyddi, i wneuthur cyfiawnder â mi. Cyfiawnder, fy Arglwyddi, cyfiawnder! Oddiwrth eich carcharor yn Geneva—Medi 22, 1553. Michael Servetus, yn dadleu ei achos ei hun."

Ei ddeisebau oeddent oll yn yr iaith Ffrangaeg; yr hyn a ganlyn sydd gyfieithiad llawn o'r olaf o honynt:—

"Ardderchog Arglwyddi, Y mae yn awr dair wythnos oddiar pan erfyniais i gael gwrandawiad, ond nis cefais hynny. Attolygaf arnoch, er mwyn Crist, i beidio nacau i mi yr hyn a ganiataech i Dwrc pan y dymunaf arnoch i wneud cyfiawnder â mi. Mae gennyf lawer o bethau i ddywedyd wrthych ag sydd o bwys ac yn angenrheidiol. Mewn perthynas i'ch eirchion y dylai rhywbeth gael ei wneuthur er fy nghadw yn lân, ni thalwyd sylw iddynt, ac yr wyf yn fwy truenus nag erioed. Heblaw hynny yr wyf yn dioddef llawer oherwydd oerfel, a chan y *colic* a'r rhwygiad, yr hyn a achlysura druenusrwydd arall sydd arnaf gywilydd i'w grybwyll mewn ysgrifen. Y mae

yn greulondeb mawr, na chaniateid i mi gael dywedyd beth sydd eisiau er mwyn cyflawni fy anghenion. Er mwyn Duw, fy Arglwyddi, rhoddwch ryw eirchion yn eu cylch, naill ai o dosturi neu o ddyledswydd.

Yn eich Carchar, yn Geneva, MICHAEL SERVETUS."
Hydref 10, 1553.

Yn y sefyllfa resynus hon, ymhell o'i wlad, wedi syrthio i ddwylaw dieithriaid creulon, i gyd dan ddylanwad Calvin, ei elyn cyffesedig, yr hwn a ddygai tuag atto gasineb marwol; wedi ei amddifadu o'i feddiannau yn llwyr, a'i gadw mewn carchar llaith, a'i esgeuluso nes ei ysu i fynu ymron gan bryfed, a nacau amddiffynwr iddo, a'i lwytho gan bob digllonrwydd a allasai barbareidd-dra ddychymygu; yn y sefyllfa hon cymmerodd un o brif Ustusiaid yr heddweh drugaredd arno, a chynghorodd ef i anfon deiseb ar i'w achos gael ei symud i'r Llys o Ddau Cant, yr hwn oedd y llys uwchaf. Gwrthwynebodd Calvin hyn, a difenwodd yr heddynad tosturiol, yr hwn a ymdrechai waredu Servetus trwy appelio. "Daeth i'r llys," ebe fe, gan watwar-wenu, "yn ddiau i waredu y dyn gresynus rhag cospedigaeth!" "Mewn trefn i hyn," chwanega, "medda y wyneb i gynnyg fod crybwylliad o'r achos hyn i gael ei osod o flaen y Llys o Ddau Cant." Darfu i ddylanwad Calvin lwyddo; a chafodd llais yr Ynad dyngarol a thosturiol ei ammharchu, a daeth dinystr Servetus yn anocheladwy. Er rhoddi ymddangosiad llai annheg i'r galanastra ag oedd yn agoshau, anfonwyd am lythyron o gymmeradwyaeth oddiwrth yr Ustusiaid cymydogaethol a gweinidogion Zurich, Schaffhausen, Basil a Berne. Pan oedd y gyflafan waedlyd yn aeddfed i'w chyflawni, ysgrifenodd Calvin at ei gyfaill Farrel, gan ddywedyd, "Yr wyf yn gobeithio y caiff Servetus ei gondemnio i farwolaeth; ond dymunwn i erwindeb y gosp gael ei esmwythâu." Y gair cyffredin a ddefnyddia creulon erlynwyr a chwil-lyswyr; y rhai, pan wedi dyfeisio a chyflawni dinystr eu ysglyfaeth anhapus, a dyfod i'w rhoddi hwynt i fynu i'r dïenyddwr cyhoeddus, i gael eu llosgi fel hereticiaid profedig, a ddymunent ar eu barnwyr i gymmeryd trugaredd arnynt! Y mae Farrel, pa fodd bynag, yn ei atteb, am beidio dangos un ffafr; ond dywaid "fod Servetus yn haeddu marw ddeng mil o weithiau;" ac hefyd "y byddai y Barnwyr yn greulon iawn, ac yn elynion i Grist a'i eglwys, pe nad elent ymlaen i wneuthur siampl o hono." Ac ni amheuir llai nad oedd hyn yn hollol gydweddol â meddwl ei ohebydd. Ymfalchia Calvin yn hyn, i Bucer (yr hwn a ddarluniai yn ddyn cymmedrol) ddywedyd yn ei areithfa ynghylch Servetus, yr haeddai ef gael tynnu ei berfedd allan a'u tori yn ddarnau." Bulinger hefyd a ddywedai i'r "Heddynadon weithredu yn odidog, ac fod cospi y fath hereticiaid cyndyn *er gogoniant i Dduw*." Anhawdd dyweyd pa ddaioni wnaeth y neillduad oddiwrth Eglwys Rhufain i'r dynion hyn, gan iddynt ddwyn gyda hwynt y rhan waethaf o Babyddiaeth—ei hysbryd gwaedlyd ac erlidgar—yr hyn a'u cymmododd hwynt â rhai o'r creulonderau gerwinaf; ac a wnaeth hyd yn nod llofruddiaeth i ymddangos nid yn unig yn ddiniwed, ond yn rhinweddol—hyd yn nod yn ddyledswydd angenrheidiol a phwysfawr!!

Ar y 26ain o Hydref, darfu y Barnwyr ddedfrydu Servetus annedwydd i gael ei losgi y dydd canlynol, ynghyd a'i lyfrau oll, y rhai argraffedig a'i lawysgrifau; ac ni phetrusa Beza i ddyweyd, "fod hynny yn unol â barn yr holl eglwysi Helvetiaidd." Mwyaf eu cywilydd hwynt! Y ddedfryd, ar ol crybwyll y gwahanol gwynion a ddygwyd yn erbyn y carcharor, a ddiwedda fel hyn: "O herwydd hyn a phethau eraill yn gydunol, gan ewyllysio glanhau

yr eglwys o'r fath lwgr, a thorri ymaith y fath aelod pwdr, wedi cydymddiddan â'n dinasyddion; a galw ar enw Duw i roddi barn gywir, yn eistedd yn lle ein hynafiaid, gan gadw Duw a'r ysgrythyrau sanctaidd o flaen ein llygaid, gan ddywedyd, 'Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glan,' trwy ein dedfryd benderfynol, yr hon a roddir gennym yn ysgrifenedig, yr ydym yn dy ddedfrydu di, Michael Servetus, i gael dy rwymo a'th gludo i'r lle a elwir *Champel*, ac yno dy gylymmu wrth bawl, a'th losgi yn fyw, ynghyd a'th holl lyfrau argraphedig a llawysgrifau, nes byddo dy gorph yn ulw; ac fel hyn y bydd i ti derfynu dy ddyddiau, er rhoddi siampl i eraill a wnant yr un peth." A hwy a chwanegasant, "Yr ydym yn gorchymyn i chwi, ein Rhaglaw, i beri fod ein dedfryd bresennol i gael ei chwbl gyflawni."

(*I'w orphen yn y nesaf.*)

Y DIWEDDAR BARCH. GEORGE HARRIS.

Mr. Gol.,—Odid na fydd yr hanesyn a ganlyn, yr hwn a ymddangosodd yn y "*Christian Freeman*" am Chwefror diweddaf, yn dderbyniol gan lawer, yn wrthodedig gan nemawr, a buddiol yn ddigon tebyg i bawb o ddarllenwyr yr *Ymofynydd*. Nid wyf yn meddwl rhoddi cyfleithiad rhy lythrenol, gan fy mod yn ystyried fod y llythyren, ar y tir hwn yn anad dim, yn lladd.

Oer-ganer cnul i'r dewr, y dewr a'r mawreddog; syrthiodd tywysog a gwr mawr yn ein Hisrael ni. Saif y flwyddyn 1859 ar dudalenau hanesyddiaeth fel beddrod llawer o'r puraf, y doethaf, a'r goreu o ddynion, y rhai a dderchafasant ac a addurnasant y natur ddynol â'u llafur. Aeth hi heibio, heibio hefyd yr aethant hwythau,—heibio hefyd yr aeth ein cymmydog agos a'n brawd anwyl yng gwaith yr iechydwriaeth Grist'nogol,—rhyddid dyn a'i oleuo; yr oedd y newydd am ei farwolaeth yn alar i'n holl eglwysi. Un o weinidogion galluoccaf, henaf, a goreu yr Undodiaid,—y mwyaf llafurus, selog, a llwyddianus dros flynyddau meithion, a aeth heibio. Nid oedd yn hen er hynny, heb gyrhaedd yn llawn yr amser addawedig o ddeng mlynedd a thriugain; ond crugiodd o fewn deugain a phump o'i fywyd, fel gweinidog, driugain a deg o flynyddau dair gwaith drosodd. Yr oedd ei feddwl yn fyw i ddyledswydd ymhell tuhwnt i'r cyffredin, a chyffroid ef i weithrediad gan gymhelliadau moesol o'r fath mwyaf urddasol; felly meddyliai a gweithredai ar adenydd y fellten amewn ffydd a chariad. Daliodd at y gwaith anrhydeddus hyd ei awr olaf: ar geulan y bedd, gan gynnal ei gorph i fynu, gweinyddodd wrth yr allor; ond 'nawr y mae wedi myned heibio. Ni allwn byth mwy afaelu yn y llaw wrol, glywed y llais soniarus, dderbyn y groesaw calonog a roddai yn ei dy ei hun gartref. Distaw 'nawr yw ei wefusau, y gwefusau a draethasant wrth filoedd o rai awyddus i wrando beth oedd raid ei gredu a'i wneuthur; etto y mae ei fywyd, wrth ei gofio, yn awr yn arllwys allan hyawdledd dyledswydd, oblegid yr oedd efe yn weithiwr mawr yn gystal a llefarwr cyffrous; ac yr ydym yn dymuno gosod o flaen ein darllenwyr y crynodeb byrraf a allasem wneud o'i fywyd defnyddiol a llafurus. Ei law ef ddarfu ein harwain ni, ynghyd a llawer ereill allan o dduwinyddiaeth bruddaidd a galarus i oleuni tanbaid gwirionedd a chariad Duw ei hun. Y mae y côf am dano yn barchus genym.

Triugain a phump o flynyddau yn ôl, y ganed Mr. Harris yn Maidstone, yn swydd Kent. Bu ei dad yn weinidog yr Undodiaid yn y lle hwn am ddeugain mlynedd. Nid oedd ei rieni ar y cyntaf yn bwriadu iddo fod yn weinidog, ac felly gosodwyd ef mewn *office* er mwyn rhoddi galwedigaeth iddo. Ychydig ddyddiau yn ôl darllenasom lythyr, wedi ei ysgrifenu mewn llaw blain a hardd ysgolhaig ieuanc. Llythyr oddiwrth Mr. Harris pan yn un ar bymtheg oed. Ei ddymuniad yw bod yn weinidog Crist'nogol. Yn hyn y mae 'n cael ei wrthwynebu gan ei rieni. Yn y llythyr hwn y mae 'n ymresymu ac yn ymbil am gydsyniad ei dad a'i fam â'i gais i fod yn weinidog. Y mae'n gosod allan mor hollol wybodus ydyw mai ychydig a fyddai y tâl am y gwaith hwn. Y gall fod gwawd, enllib, ac erledigaeth yn ei aros. Y mae'n foddlawn dioddef colled a chywilydd. "Rhoddweh eich cydsyniad, da chwi, gan nas gallaf wneuthur dim ar hyn o bryd heb eich caniattâd." Y fath yw yspryd llythyr y bachgen ieuanc. Yn hollol barod i aberthu ei hun, ac yn selog i fyned allan i daenu geiriau y gwirionedd dwyfol. Duw, eb efe, sydd i fod yn dyst i burdeb ei amcamion. Pwy bynnag a gymero i fynu y llythyr hwn, a'i darlleno, ac a'i deallo fel cynhyrfiadau calon bachgen ieuanc yng ngwyneb anhawsderau a wesgid arno gan awdurdod tad, a ganiattaiff yn rhwydd fod y fath lythyr yn cynnwys pennod o brophwydoliaeth, y byddai y fath fachgen yn fendith i'r byd. Ar ol ychydig amser, ychydig barattoad mewn athrofa, cynghor a bendith tad, ynghyd a gweddi mam dros ei phlentyn hoff, dechreuodd Mr. Harris ei waith fel gweinidog Crist'nogol gyda'r Undodiaid, a darfu i'w fywyd defnyddiol a llafurus wirio'r brophwydoliaeth y tybiason ini ei chael yn ei lythyr.

Clwysom ef yn dywedyd mai yn y flwyddyn 1812 y darfu iddo bregethu y bregeth gyntaf i gynnulleidfa fechan iawn. Y pryd hwnnw mynai fod yn bregethwr cynorthwyol. Yn y *Monthly Repository* am 1815, yr ydym yn cael, am y tro cyntaf, hanes ei lafur. Dyma ran o'r hanes. Greenock, Awst, 1815.—"Mewn cyfarfod y rhai sydd dros arfer rheswm mewn crefydd, Mr. George Harris yn y gadair, penderfynwyd yn unfrydol,—1af, Fel credinwyr cadarn yn Undod hollol a phriodol y Goruchaf, ac yn ei gariad cyffredinol at ei holl creaduriaid, ein bod yn ei hystyried yn ddyledswydd arbenig i daenu y grediniaeth bur a syml hon ymhlith dynolryw trwy bob moddion o fewn ein gallu. I'r perwyl hwn fod i gapel a allo gynnwys 500 o bobl i gael ei adeiladu yn y dref hon," &c., &c. Y mae'r hanes yn gosod allan, "Fod cyfres o ddarlithiau yn cael eu traddodi gan Mr. Harris, a llawer yn ei wrandaw'n astud, a'u bod yn gobeithio y byddai sylfaen ail gapel yr Undodiaid yn Scotland i gael ei gosod ar fyr." Yma yr ydym yn ei gael ef nid yn ymofyn am lonyddweh, ond yn cyffroi gogledd a dehau i uno mewn ymdrech i ddwyn ymlaen yr achos oedd ganddo mewn llaw. O'r flwyddyn 1815 i 1860 mor ddirfawr ei lafur a'i bryder i daenu Undodiaeth Grist'nogol! Mewn amser ac allan o amser glynai wrth ei alwad a'i ddyledswydd, yn gwneud yr hyn oedd deilwng o'i gyflawni. Nid rhyw freuddwydiwr oedd Mr. Harris yn aflonyddu ei ymenydd a'i eglwys â dychymygion ofer. Yr oedd y Sais yn arddangos ei hun yn dda yn agwedd ei gorph ef, rhagoriaethau ei feddwl, a chwrs ei fywyd. O hiliogaeth Oliver Cromwell o ran gwladoliaeth, yr oedd yn etifeddu "dyfal-barhad," cariad at ryddid, ac egni anorchfygol, yn gystal a phethau eraill a berthynent i Oliver. Yr oedd yn ddyn o deimlad cryf a chalon eang, ac yn llafurwr ewyllysgar yn achos Duw a dyn.

Yn nhaeniad Undodiaeth y rhoddodd alluoedd pennaf ei fywyd. Yr

oedd yn cael ei alw i bregethu i bob parth o'r tair teyrnas. Nid oes un dyn, mewn cynnifer o flynyddau, wedi torri cymmaint o dir newydd, wedi agor mwy o eglwysi newyddion, ac wedi cael ei wahodd i bregethu, darlithio, llywyddu cyfarfodydd oddi cartref gymmaint ag ef. Pa mor ewyllysgar, gwyddom yn ddigon da, hyd yr awr olaf, pan yn crymu i lawr gan afiechyd, ac egwan o herwydd gwendid corphorol, i galonogi ein holl eglwysi â'i bresennoldeb. Y mae ei ymdrechion cenhadol ef ei hun wedi bod y calettaf a'r mwyaf cysson o'r dechreu i'r diwedd. Cafodd ei fedyddio âg yspryd ei hen gyfaill Richard Wright, yr hwn oedd un o'i wrandawyr cyntaf yn ei anturiaeth i bregethu. Ym mlynyddau diweddaf ei fywyd, gwyddom i Mr. Harris drafaelu i fynu i fryniau Gateshead, pregethu yn *station* y genhadaeth yn wlyb dyferu, a dychwelyd tuag adref ar noswaith o'r tywyllaf.

Deugain mlynedd yn ôl y cynnygiodd osod cynllun mewn gweithrediad yn Lancashire, y fath ag y mae eglwysi y swydd honno wedi cymmeryd atto yn bresennol gydag yspryd a sêl. Pender fyniadau sefydlog a gweithrediadau llwyddianus sydd yn nodi hoil daith ei fywyd. Y mae llawer o gapeli trwy ein gwlad, a gweinidogion yn gweini wrth allorau llawer o'n heglwysi, yn ddyledus am eu sefyllfa i'w lafur ef. Yr oedd yn wastad yn cefnogi sefydliad llawer o gymdeithasau defnyddiol yn ein eglwysi. Ysgolion Sul, trysorfeydd dyngarol, cymdeithasau llyfrau a thraethodau, cyfarfodydd cyfeillach, cymdeithasau boneddigasau, a sefydliadau at ddiwygio y naill y llall. Yr oedd ei law ef yn wastad wrth yr aradr. Nid oedd byth yn dywedyd ewch, ond deweh, at ddyledswyddau ymarferol eglwysi Crist'nogol. Pregethu, darlithio, trafaelu, ymweled â'r cleifion,—ymlaen y rhedai cwrs ei fywyd ef, gan adael ôl ei draed b'le bynnag yr elai.

Heblaw dyledswyddau'r pwlpud, cefnogai fudiadau politicaidd a iachaol, addysgiadol a moesol, gyda sêl a medrusrwydd. Ymdrechion celyd a mawrion a welwyd yn llywod-ddysg ein gwlad yn ystod y deugain mlynedd diweddaf. Galwyd Mr. Harris i gymmeryd rhan bwysig yn rhai o'r ymdrechion hyn. Yr oedd ynddo wrthwynebiad dwys i bob gormes, ac yr oedd yn ddewr yn y frwydr yn erbyn trais a cham. Llafuriodd yn galed dros flynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth ochr yn ochr â diwygwyr blaenaf ei ddydd. Clywsom hefyd mai efe ddarfu ysgrifenu y ddeiseb gyntaf dros rydd-fasnach o Scotland i Senedd Prydain fawr. Cafodd diddymiad y *Test a'r Corporation Acts*, *Catholic Emancipation*, ei gymhorth hyawdlaidd ef.

(I'w barhau.)

DULL PLANT Y BYD HWN.—Yn ystod yr haf diweddaf cymmerodd yr ymddiddan canlynol le rhwng dau gydymaith, sef Tom yr oriorydd a Jack yr hwsmon, y ddau dan ddylanwad oferedd. "Wel Jack," ebe Tom, "paham mae pethau y byd wedi cefnu arnat ti, gan fod dy gnydiau a'th anifeiliaid ar gynnydd pan fyddot yn segura?" "Yn wir, Tom," ebe Jack, "yr wyf yn euog o yspeilio perfedd amser." Yna yr ymadawsant y tro hwn. Yr ail gyfarfod a gymmerodd le ynghurchar y Sir. Yr oedd Tom wedi ei ddal am ladratta oriawr, a Jack am ladratta buwch. Wedi treulio yn brin un noson, yn yr un ystafell, ar doriad y dydd, rhwng cwsg a deffro, gofynodd Jack i Tom, "Faint o'r gloch yw gennyt, dywed?" "Yn wir," ebe Tom, "er fod yr oriawr wedi ei gymmeryd oddiwrthyf, gallwn feddwl wrth reswm ei bod oddeutu amser godro."

Hynod mor barod y bydd——rhai dynion,
Er dannod i'w gilydd
Eu beiau, ac heb awydd
Eu hunain, rhag rhai'n, fyw'n rhydd. AMNON.

DARLITH

Ar y pwysigrwydd o ddyledswydd Rhieni i roddi Addysg dda i'w Merched. Buddugol yn Eisteddfod Llandilo.

Addysg dda—addysg dda i ferched. Wrth gysylltu yr ansoddair *da* â'r gair addysg, ymddengys fod addysg dda ac addysg ddrwg i'w cael; o ganlyniad ni gawn ymofyn beth yw addysg dda.

Addysg dda yw planiad o egwyddor foesol a dyngarol yng nghalon plentyn yn y man cyntaf y mae ei alluoedd tyner yn dyfod i weithrediad; wedi hyny rhoddir ysgol iddo er coethi ei chwaeth yn y cyfryw egwyddor, yngbyd a'i gynnorthwyo yn ei alwad i fod yn aelod buddiol ymhob ystyr. Ac y mae yn ddiddadl fod mor angenrheidiol ag o gymaint pwys i roddi yr addysg dda hyn i ferched yn gystal ag i fechgyn.

Y mae o'r pwys mwyaf i roddi addysg dda i ferched pan yn blant, oblegid ar hyn yr ymddibyna eu nodweddiad hyd ddiwedd eu hoes. Os na ddysgir dim iddynt, byddant fel llwdn asen yn dda i ddim ond dwyn eu llwyth mewn ystyfnigrwydd o dan ffonnodiau eu gyrwyr. Os cânt eu dysgu yn falch, balchder a'u gorfodant—byddant rwym o dan iau y gau-dduw hwnnw. Byddant yn llwm neu yn llawn; eu hagwedd a'u bradychant yn ol fel byddo eu gallu yn rhoddi lle. Os cânt eu dysgu yn hustyngwyr, byddant yn bla cymmydogaethol drwy eu hoes. Lle caffont dderbyniad, ni phetrusant ddyfeisio a dywedyd wrth un bod y llall yn ei ddifrio a'i oganu, gan ddyweyd yr un 'stori wrth y llall am hwnw, nes peri digofaint rhwng teuluoedd a'u perthynasau, rhwng perthynasau a'u cymydogion, a rhwng cymydogion a'u gilydd, nes o'r diwedd bydd yr holl gymydogaeth yn ffiam dân; a hyn i gyd o achos yr addysg ddieflig a gafodd yr hen glecwraig hon pan oedd yn blentyn.

Os cânt eu dysgu yn lladron, byddant yn debyg o gael eu halltudio. Os cânt eu dysgu yn anllad, byddant yn debyg o fod yn faich ar eu plwyfi neu eu rhieni trwy eu gorlwytho â bastarddiaid, yr hyn fydd iddynt yn gosb anocheladwy, ac yn warth a dirmyg diddarfod am eu dysgu yn y fath ffordd. Ond os cânt eu hegwyddori yn briodol, fel y soniwyd yn y dechreu, gan roddi iddynt addysg i ddiwyllio eu meddyliau, byddant yn debyg o droi allan i fod yn weddaidd yn eu hymddygiad, i fod yn rhwystr i hustyngiaeth, i fod yn angau i genfigen, i fod yn faen tramgwydd i ledrad, i fod yn attalfa i anlladrwydd, yn gysur eu teuluoedd, yn gariad mewn cymydogaeth; mewn gair, i fod yn goron cymdeithas.

Y mae o'r pwys mwyaf i roddi addysg dda i ferched, er eu lles yn amser ieuenctyd. Dyma pryd y maent yn dechreu holi ei hunain am yr amser dyfodol,—pryd mae eu calonau yn agored, eu serch yn wresog, a holl fywiogrwydd natur fel wedi cydgyfarfod yn yr un person; ac fel y dywedodd yr hen Gweni Jones wrth Dafydd Evans, (Seren Cymru, Rhif. 25, tud. 430,) "mae pob merch am fod yn wraig, a phob gwraig am fod yn fam." Mae hyn, ynghyd a dymuniad i wneuthur eu cartref, yn eu gosod yn agored i demtasiynau a phrofedigaethau nad oes dim ond y penderfyniad mwyaf diysgog a all eu gwrthwynebu; a chynifer a syrth, y maent yn agored yn ol cyfraith ein gwlad ni i gael eu harwain i lys gwladol, ac yno ymysg chwerthiniadau ystafellaid o wrrywod i gyfaddef ac adrodd pethau am danynt eu hunain y byddai boneddigesau dysgedig yn gwrido wrth glywed eu hadrodd am anifeiliaid direswm. Ac yn wir rhaid cyfaddef nad yw y rhyw deg hyd yn hyn wedi bod yn deilwng o'u rhywogaeth eu hunain yn y dewisiad o'u cyfrinachwyr. Dywedodd y bythgofus Iorwerth Ystradmeurig,

> "Na son am fursendod a drygau bydrogod,
> O ddilyn cymendod coegenod cei gas;
> Hwy fyddant anfoddlon i garu dyn gwirion,
> A ffyddlon i'r dewrion wyr diras."

Felly y mae. Y mab fyddo mwyaf ei ystwr a'i frol, y mwyaf rhodresgar a thrythyll yw gwrthrych serch y rhai hyny o bonynt na chawsant addysg dda. A thrwy fod greddf natur mor gryfed fel nad oes dim a rwystra meibion i geisio serch y merched, ni phetrusant aberthu pob egwyddor, gan roddi eu hunain i fynu i'r amryfusedd

mwyaf er enill gwrthrych eu serch. Ond pe rhoddid addysg dda i ferched, rhoddai ymddygiadau o'r fath yna eu hystôl i ymddygiadau a fyddai yn gweddu i reswm dynol. Byddai gwylder eu gwynebau yn abl hollti'r galon garreg o serch attynt; byddai eu llygaid yn ddigon craffus i ddewis y cyfrinachwyr mwyaf boneddigaidd; byddai eu penderfyniad yn ddigon i wrthwynebu pob profedigaeth; byddai eu rhagfeddwl yn eu galluogi i ddewis y sefyllfa fwyaf addas i'w hamgylchiadau; dedwydd fyddai eu priodas; dedwydd fyddai y gwyr y byddent iddynt yn wragedd; dedwydd fyddai y plant y byddent iddynt yn famau; a byddent yn foddion i addysgu y meibion i fod yn deilwng o serch y fath nodweddiadau.

Y mae o'r pwys mwyaf i roddi addysg dda i ferched, er eu lles pan ddelont yn wragedd. Dyma'r amser y mae mwy nag un rhan o ddedwyddwch teuluaidd yn ymddibynu ar ochr y fenyw: nid wyf ychwaith am osod mwy na'u dyledswydd ar y rhyw deg, ond dywedaf, gyda Daniel Ddu o Geredigion,

"Gweled rhoi oenig wiwlan——angelaidd,
Yng nghwlwm â llyffan',
Ar ei llw wrth allor Llan,
A dyn wedd led anniddan."

Ond os bydd menyw wedi cael digon o ddysg i fod a'i llygaid yn llon, a'i geiriau yn garuaidd, a'i thymmer yn serchog, a'i gorchwyl yn gryno, a'i buchedd yn lân, a'i hymddygiad yn rhinweddol, ac yn gallu trefnu cunill y gwr yn y ffordd fwyaf manteisiol; mae'n rhaid fod y gwrryw wedi ei haiarnciddio â dideimladrwydd, ac yn gibddall ei olygon, os na fydd yn fwy dedwydd gartref nag yn un man arall.

Hefyd dyma'r amser y mae menyw yn y swydd bwysig yn llaw Rhagluniaeth i ddwyn ymlaen yr hil ddynol. Ac yn gymmaint ag mai dan ofal y fam, yn fwyaf neillduol, y mae plant pan yn dechreu sugno pren gwybodaeth, y mae argraff y fam ar y plant yn eu dygiad i fynu. Ond os dall neu annysgedig fydd, y "dall fydd yn arwain y dall, a'r ddau a syrthiant i'r un ffos." Gallem nodi amrywiol engreifftiau o hyn mewn oesoedd aeth heibio, pe byddai ein gofod yn caniattau. Ac yn ein hoes ni ein hunain, yr ydym yn llygad-dystion. Mewn trefydd, lle mae plant yn gweled pob rhyfeddodau a dyeithriaid, nid oes diffyg gwyneb arnynt; ond y mae diffyg moes bob amser lle byddo diffyg dysg. Rhydd plentyn y fam ddiwylliedig atteb boneddigaidd, tra bydd plentyn yr annysgedig yn rhoddi atteb serth a checrus i unrhyw ofyniad. Ond yn y wlad y mae yn wahanol. Pan welo plantos diddysg y wlad ddyn dyeithr, byddant yn rhedeg tu arall i'r berth, ac yn llygad-rythu ar ei ol, gan ymofyn, "Pwy'n yw hwna? o b'le da'th e? b'le mae e'n myn'd? beth mae e'n 'mofyn," &c., &c. Ac os digwydd i un ddyfod attynt, fel na chaffont fe i ddianc, a gofyn un peth neu gilydd iddynt, ni roddant yr un atteb, ond ânt ymaith dan wneud cilwg, a'u bysedd yn eu geneuau, fel rhai fyddai mewn diffyg o synwyr cyffredin. Nid diffyg synwyr ydyw, ond diffyg addysg; oblegid ceir atteb boneddigaidd gan blant gwlad, fel plant tref, lle byddont yn blant i famau a gawsant ddysg dda.

Y mae o'r pwys mwyaf i roddi addysg dda i ferched, er eu lles yn amser henaint. Dyma yr amser pan y mae dyn wedi treulio ymaith ei oes; nid oes gobaith am adgyweiriad corph na meddwl, fel y dywedodd Taliesin ab Iolo,—

"Bydd modd y cyfansoddiad,
O ran hwyl, dan fawr wanhad
Hen oedran, a'i gyfan gur
I'w ddilyn yn fawr ddolur.
* * *
Gwynfyd a dry yn gwynfan,
Gwall yw'r nwyf a'r gallu'n wan.
* * *
Y llug yn myn'd a'r llygaid,
A'i ben yn crymu'n ddi-baid;
Llusgwr dall yn llesg ar don,
Yn diffawdd uwch ben dwyffon;
Rhodia i'r llwch ar adwedd,
Wr bach, a'i blyg tua'r bedd."

Nid oes cysur i ddisgwyl i'r cyfansoddiad o dan lwyth o glefydau ag y mae henaint yn ddarostyngedig iddynt; felly mae y meddwl tra parhao y cynneddfau yn alluog, yn rhwym o fod mewn adgof am a fu yn y byd hyn, neu mewn pryder am a fydd yn y byd a ddaw. Os mai adgof o yrfa halogedig a thrahaus a'i meddianna, nis gall lai na bod yr annedwyddwch mwyaf i'w benllwydni. O'r tu arall, os mai adgof o yrfa ddihalog a daionus a'i meddianna, bydd yn foddion i liniaru doluriau henaint a methiant; bydd mewn parch dyledus gan ei holl gydnabod; bydd yn ymdawelu yn foddlongar yn ngwyneb awr ei ymddattodiad. Yn enwedig yr hen wragedd, y rhai allant ddwyn i'w cof eu bod wedi bod yn addysg idd eu cydryw, yn addysg i'r rhyw wrrywaidd, yn siampl idd eu plant, yn gysur idd eu gwyr priod, ac mewn heddwch á'u cymmydogion: gallant gofio iddynt eu hunain fod eu gyrfa wedi bod yn foesoldeb, moesoldeb yn dduwioldeb, a duwioldeb yn ddedwyddwch diddiwedd.

Hyna, Mr. Llywydd, boneddigesau, a boneddigion, yw meddwl eich ufudd was mewn perthynas i addysg dda i ferched.

DEWI DAWEL.

PENILLION I'R YSGOL SABBOTHOL.

A gyfansoddwyd erbyn Gwyl Dè Ysgol Sul Coedycymer, a gynaliwyd Ionawr, 1860.

Mesur, "Hen Ddarbi."

Yn foreu rhyw lewyrch oleuodd,
Ymdaenodd a rhoddodd fawrhad,
Gan wasgar gwawl bywnwyf ddybenion,
Er addysg i dlodion ein gwlad;
Y Lamp ydyw'r Ysgol Sabothol,
Ni ddylem ei chanmol o hyd,
Gan gymaint ei gwerth a'i rhagoriaeth,
Er rhoddi gwybodaeth i'n byd.

Ein byd oedd mewn dudew dywy lwch,
Gan dristwch coelgrefydd ar goedd,
Enbydus oedd grym anwybodaeth,
Dan gaddug Pabyddiaeth pawb oedd;
Agorodd a gweithiodd Rhaglaniaeth,
Er mwyn iechydwriaeth i ni,
Gan esgor ar Ysgol Sabothol,
Rhagorol a breiniol ei bri.

Mae'n cymhell y pell, a'r rhai agos,
I ddyfod heb aros un pryd,
Gan alw, "O deuwch i'r dyfroedd,
Hardd luoedd yn gyhoedd i gyd;
Pob un sydd a syched gwybodaeth,
Addysgiaeth yn helaeth, hael yw,
(Nac oeded, gwir hwylied i'r alwad.)
Sydd ynwyf yn rhad i bob rhyw."

Daeth llawer un tlawd yn ddyn enwog,
Talentog, ac addurn i'w oes,
Yn berchen athrylith ddewr rhyfedd,
Ac uchel mewn mawredd a moes;
Mae'n foddion i attal drygioni,
Halogi neu dorri dydd Duw,
I'r Hwn 'r ydym dan rwymedigaeth,
I dalu gwarogaeth, gwir yw.

Yn Nghymru 'roedd gynt ofergoelion,
A phob gwag ddych'mygion go chwith,
Yn cael y gadarnaf grediniaeth,
Taw mawr oedd ei effaith 'mhob rhith;
Maent wedi diflanu fel corwynt,
'Does braidd son am danynt 'n un man,
Drwy nerth a goleuni Crist'nogol,
A'r Ysgol Sabbothol mewn rhan.

Bydd clod i'w sefydlydd* cyntefig,
Yn Nghymru fynyddig hoff wlad,
Am blanu'r fath gynllun daionus,
Yn barchus gaiff ef byth goffâd;
Mae'n golofn gadarn bob amser,
Er cadw'r Omeraeg yn fyw,
A chyfrwng er meithrin gwarineb,
I ganfod doethineb ein Duw.

Boed llwyddiant yw chynes amcanion,
Er lies i wael dlodion y llawr,
Ehanged dros fryniau a broydd,
Mwy cynnydd fo iddi bob awr;
Gochelwn un math o fusgrellni,
Wrth wneuthur daioni'n ein byd,
Ein rhan a fydd, os na ddiffygiwn,
Iawn fedwn heb brinder un pryd.

Aberdâr. EIDDIL GLAN CYNON.

* Y Parch. T. Charles, Bala, a'i sefydlodd gyntaf yn Nghymru, a'r Parch. Theophilus Lindsey yn Lloegr. Gwel Dyddiadur yr Undodiaid am y flwyddyn hon, tudal. 55.

RHESWM A CHREFYDD.—Rhif. IV.

(Parhad o tudal. 62.)

Mae Dr. Wardlaw yn ystyried fod Numeri vi. 24—28 yn cyfeirio yn ddystaw (*tacitly refer*) at athrawiaeth y Drindod: "Bendithied yr Arglwydd di, a chadwed di.—A llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnat, a thrugarhaed wrthyt.—Dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnat, a rhodded it' dangnefedd." Cyfeiriad at y Drindod!! Mae'r gair "Arglwydd" yn cael ei arferyd yma dair gwaith, ac yn ganlynol mae'n rhaid fod *tri* Arglwydd! Mae'r Dr. yn dywedyd y gwir mai "dystaw" yw'r cyfeiriad; y mae mor "ddystaw" fel nas gall clust neb ei glywed, ond clust yr hwn ag sydd gwedi penderfynu clywed a gweled Trindod yn mhob man! "Mae'r tri ymadrodd yma o'r un feddwl, ac nid yw yn anmhebygol eu bod yn cynnwys tair ffurf er eglsio yr un fendith, pan nad oedd yn angenrheidiol i arferyd mwy nag un." (Le Clerc.)

Mae rhai yn dychymygu fod rhyw beth yn debyg i gyfeiriad tywyll at y tri pherson yn Ps. xxxiii. 6, "Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd, a'u holl luoedd hwy trwy yspryd ei enau ef." Mae'r cyfryw yn tybied mai wrth. "trwy *air* yr Arglwydd" y golygir yr ail Berson, &c.; wrth "yspryd ei enau," y trydydd Person! Yr un peth yw cynnyg lloffa gwenith ar wyneb y tywod, ar lan y môr, ag i chwilio yn yr Hen Destament am rith o Drindod. Mi adawaf Drindodiaid i esponio'r geiriau yma etto—mae dysgeidiaeth o du'r Undod o hyd,—"Arfera'r Salmydd y geiriau, 'Trwy air yr yr Arglwydd, a thrwy yspryd ei enau ef,' yn yr un ystyr, er arwyddo gallu a nerth Duw, trwy ba rai y crewyd y cyfan, ac y mae pob peth yn bodoli." (Gwel Rosenmüller, Eichorn, Calmet, &c.) "Mae rhai ymadroddion, yn enwedig yn yr Hen Destament, lle yr arferir 'gair Duw' heb roddi un meddwl fod y 'gair' hwnnw yn arwyddoccau *person;* ac yn yr un modd yr arferir 'yspryd ei enau ef.'" (Dr. Hay's Lectures, Oxford.) "Achos ag sydd gwedi gwanhau cred rhai yn y Drindod yw'r ymddygiad ffol o sylfaenu yr athrawiaeth (y Drindod) ar rai testunau yn yr ysgrythyr nad ydynt yn dysgu dim o'r fath." (Dr. South's Serm., vol. 4, p.p. 318, 319.)

Mae rhai gwedi haeru fod cyfeiriad at y tri Pherson yn Ps. cxlix. 2: "Llawenhaed Israel yn yr hwn a'i gwnaeth,"—yn yr Hebraeg, "yn y *rhai* a'i gwnaeth," neu yn ei wneuthurwyr. Tybir fod y gair *gwneuthurwyr* yn y rhif lluosog yn brawf o'r tri pherson yn y Duwdod; ond fe addefir yn gyffredin, gan y cyfryw ag sydd yn gynefin â'r iaith Hebraeg, ei bod yn arferyd y rhif lluosog yn fynych er arwyddo mawredd a pharch. Er prawf o'r arferiad hwn, gwel Diar. ix. 1: "Onid yw doethineb yn gwaeddi?" yn yr Hebraeg, *doethinebau*, yn y rhif lluosog, er mwyn dangos ardderchawgrwydd doethineb. Yn yr un modd yn Preg. xii. 1: "Cofia yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuenctyd," &c. Mae y gair Creawdwr yn yr Hebraeg yn y rhif lluosog, *Creawdwyr*, er dangos rhagoroldeb y Creawdwr. Etto (Isa. i. 3): "Yr ych a edwyn ei feddiannydd, a'r asyn breseb ei berchenog"—breseb ei berchenog*ion*, yn yr Hebraeg.

Tybir gan lawer o Drindodiaid fod prawf cryf ac anwrthwynebol o'r athrawiaeth i'w gael yn Esay vi. 3: "A llefarodd y naill wrth y llall, ac a ddywedodd, Sanct, sanct, sanct, yw Arglwydd y lluoedd." Meddylir fod yr arferiad triphlyg o'r gair Sanct yn nodi mewn modd amlwg iawn y *tri pher-*

son yn yr hanfod ddwyfol! Mae dysgedigion yn gwybod yr arferir yn fynych, mewn llawer o leithoedd, yr adroddiad triphlyg yma er dangos pwysfawrawgrwydd y geiriau, ac er cryfhau y meddwl a gyflwynir. "Yn ddiammheuol," meddai Calvin, "mae yr ail-adroddiad yma yn arwyddocau gweithgarwch diflin, megis pe buasai y prophwyd yn dywedyd nad oedd diwedd ar foliant y seraphiaid." Mae llawer o esponwyr yn dywedyd nad oes yma un cyfeiriad at y Drindod.

Arferir (Jer. xxii. 29) yr un dull o ymadrodd lle nad yw bosibl meddwl fod cyfeiriad at y Drindod: "O ddaear, ddaear, ddaear, gwrando air yr Arglwydd." Mae yr ail-adroddiad yma yn dangos taerineb y prophwyd. Drachefn (Jer. vii. 4): "Nac ymddiriedwch mewn geiriau celwyddog, gan ddywedyd, Teml yr Arglwydd, Teml yr Arglwydd, Teml yr Arglwydd," &c. Mae yr un dull o ymadrodd i'w gael yn Ezec. xxi. 27: "Dymchwelaf, dymchwelaf, dymchwelaf hi." Yr un ymadrodd yn cael ei arferyd dair gwaith er gosod allan sicrwydd y weithred.

Mae Parkhurst, Esgob Horsley, ac eraill, yn ystyried fod Dan. iv. 17 yn cynnwys profion eglur o'r Drindod: "O ordinhad y gwiliedyddion y mae y peth hyn, a'r dymuniad wrth ymadrodd y rhai sanctaidd," &c. Meddylir mai y tri Pherson sydd i ni ddeall wrth "gwiliedyddion" a'r "rhai sanctaidd" yn y 13 a'r 14 adnod. Mae Nebuchodonosor yn arferyd y rhif unigol wrth ddesgrifio yr un weledigaeth: "Edrych yr oeddwn . . . . . ac wele Wiliedydd a Sanct yn disgyn o'r nefoedd;" yn ganlynol mae yn rhaid fod y rhif lluosog a'r rhif unigol, yma, yn arwyddo yr un gwrthrych, sef yr Angel a welodd yn ei freuddwyd yn disgyn o'r nefoedd, "yn llefain yn groch, ac yn dywedyd fel hyn, Torrwch y pren." Mae Samuel Clerk, Wells, South, &c., yn cyfaddef nad oes yma ddim yn debyg i gyfeiriad at y Drindod, ac mai angel neu angylion feddylir wrth Wiliedydd neu Wiliedyddion, &c. Cofiwn mai *breuddwyd* oedd y cyfan! Cofiwn hefyd fod yr Iuddewon yn arferol o bersonoli digwyddiadau mwyaf rhyfedd Rhagluniaeth, ac o'u galw yn angylion neu genadon Duw. D. Ll.

Y CLWTTYN AR Y DDWY BEN LIN.

Pan oeddwn fachgen, cefais yr anrhydedd i anadlu, am hir amser, yr hyn eilw rhai ysgrifenwyr yn awyr rhwymol tlodi. Yr oedd mam—ysgafn gorwedded y dywarchen ar y ffurf ag oedd unwaith yn amgylchynu ei hysbryd melus a thawel—yn byn a elwir yn fenyw uchelfrydig; oblegyd y mae'r anian hynny sydd yn dadymchwelyd gorseddau, ac yn dileu ymherodraethau, yn caffael cylchdro cyfreithlon yn y lletty gwaelaf y mae cysgod tlodi erioed wedi ei dywyllu. Dygodd yr ymdrech rhwng y dymuniad o gadw i fynu ymddangosiadau a chyfyngder tost angen oddiamgych ddyfeisiadau a threfniadau diderfyn, ar y rhai yr oedd amryw yn gwenu; ac eraill, i'r rhai yr oedd y pethau hyn yn dysgu eu profiad eu hunain, oeddent yn ocheneidio. Ond na fydded i mi aflonyddu gorchudd ang hof, yr hon sydd yn amdoi, oddiwrth lygaid halogedig, ddirgelion bendigaid tlodi.

Ar un achlysur yr oedd yn angenrheidiol i'm danfon ar neges at gymydog yr hwn oedd mewn gwell amgylchiadau na ni ein hunain; ac o ganlyniad yr oedd yn rhaid i mi gael fy ngwisgo yn y modd goreu ag oedd bosibl. Cymerwyd llafur mawr i roddi ymddangosiad hardd i'm gwisg, ac i guddio y rhwygiadau ag oedd dant cenfigenus amser wedi wneuthur arnynt; ac er mwyn taflu dros fy ngwisgiad rhyw sawr neu

daenelliad boneddigrwydd, amgylchynwyd fy nwylaw cochion caled mewn gorchudd anghynefin pâr o fenyg, y rhai a berthynent i fy mam yn y dyddiau oedd ei blynyddoedd yn llai a'i chalon yn ysgafnach.

Rhuthrais allan ar fy neges, ac ar fy ffordd cyfarfyddais â bachgen llawer henach a mwy, yr hwn oedd yn eglur yn perthyn i deulu a feddianent ein holl dlodi ni, heb ddim o'n yspryd ymgodi mewn golud. Yr oedd ei garpiau yn chwareu yn yr awel; yr oedd ei gwewll (*hat*) wedi ei gyfansoddi ar egwyddor fwyaf cymeradwy awyriad (*ventilation*); gallasid cyfrif ei esgidiau, oddiwrth eu hynafiaeth parchus, yn bâr o esgidiau cloddiwr, yr un rhai ag y cerddodd Sem ynddynt i'r arch. Dyhiryn haerllug oedd efe, a boesach tra chythreulig yn ei rodiad, a chil-wen "yr-wyf-gystal-a-thi" yn ei lygad—y cenaw ei hun i daflu baw ar draws gwr marchog mewn gwisg dda, am ei fod mewn gwisg dda—i rwygo crychiau crwt am ei fod yn lan. Cynted ag y gwelodd efe fi, craffodd ei lygad ar yr annghysondeb ag oedd yn hynodi fy ngwisg: a chan fy nghymeryd gerfydd fy ysgwyddau, a'm troi oddiamgylch â llaw drwsgl, a'm harolygu o'm pen i'm traed, gwacddodd allan gyda chwerthiniad gwatwarus,

"Clwttyn ar y ddwy ben lin,
Ac ar y dwylaw menyg."

Yr wyf etto yn adalw colyn y teimlad a saethodd trwyddwyf wrth glywed y geiriau hyn. I drosglwyddo *(parody)* geiriau yr anfarwol Duscan,

"Ni wisgais i y menyg, ddim rhagor y dydd hwn."

Ond y wers, wedi ei chymell mor drwsgl, a syrthiodd yn ddwfn i'm meddwl; fel y cefais yn aml mewn bywyd diweddarach lawer achlysur i wneuthur defnydd ymarferol o eiriau fy nghyfaill carpiog, pan y gwelwn yr annghysondebau gwrthun sydd mor fynych yn nodi ymddygiad dynolryw.

Pan wyf yn gweled, er esiampl, rhieni yn darparu yn ofalus am ddysg addurniadol eu plant—yn eu diwallu ag athrawon cerddoriaeth, dawns, a darluniaeth—heb roddi un meddwl ar yr hyfforddiad moesol a chrefyddol, oddiwrth yr hwn yn unig y gall gwir ddedwyddwch gyfodi—heb ddysgu iddynt arferiadau hunanymwadiad a hunanddysgyblaeth; ond yn hytrach, trwy eu hesiampl, yn dwyn iddynt iaith cenfigen a malais, anghariad ac anwiredd—yr wyf yn meddwl gydag ocheneidiau am y "Clwttyn ar y ddwy ben lin, ac ar y dwylaw menyg."

Pan y gwelwyf deulu mewn unigrwydd hunanol, oer, yn annghofio gwresogi eu tai yn feunyddiol â gwrid gwynebau dedwydd, ond yn gwastraffu mewn un noswaith yr hyn allai ddiwallu anghenion blwyddyn gyfan, yr wyf yn meddwl am y "Clwttyn ar y ddwy ben lin," &c.

Pan y gwelwyf dŷ wedi ei ddodrefnu yn afradus â dodrefn costfawr, caeadlenau gwerthfawr, a llawr-leni drud, heb ddim llyfrau ond ychydig almanaciau coegdlws,—adgofir fi am y "Clwttyn ar y ddwy ben lin," &c.

Pan wyf yn gweled ein dynion cyhoeddus yn meithrin yn neilldnol yr egwyddorion hynny sydd yn ennill ffordd i swydd, gan annghofio y rhai hynny a'u haddasai i lanw yn anrhydeddus y swydd y maent yn ymgeisio,—yr wyf yn galw i'm cof y "Clwttyn ar y ddwy ben lin," &c.

Pan y gwelwyf ddynion yn aberthu heddwch meddwl ac iechyd corfforol yn eu syched anniwall am olud, yn byw mewn anwybodaeth am garacter y plant sydd yn cael eu dwyn i fynu oddiamgylch iddynt, yn gosod eu hunain o'r neilldu oddiwrth bleserau nwchaf a phuraf eu naturiaeth, ac felly yn gwyrdroi eu dynoliaeth, fel mae'r hyn a geisid fel moddion, yn ddiarwybod, yn dyfod oddiamgylch fel canlyniad, yr wyf yn dywedyd wrthyf fy hun, "Clwttyn ar y ddwy ben lin," &c.

Pan wyf yn gweled miloedd yn cael eu gwastraffu ar hunanoldeb a balchder, a dim yn cael ei roddi ar elusengarwch; pan y gwelwyf foneddigesau teg yn eu sidanau a'u gemmau yn iselbrisio llafur y gwniadyddesau, a chyda geiriau sarrug yn bustleiddio bara chwerw eu hymddibyniad; pan y gwelwyf y tlawd yn cael eu troi ymaith oddiwrth dai y balch, lle byddai y briwsion a syrthiasai oddiar y bwrdd yn wledd iddynt hwy,—yr wyf yn meddwl am y "Clwttyn ar y ddwy ben lin, ac ar y dwylaw menyg."

Cyfd., RHYS.

Cofnodiaethau.

Mr. Golygydd.

Mewn canlyniad i ymddangosiad Nodiadau Mr. W. Morgan ar Bregeth y Parch. J. P. Williams yn yr *Ymofynydd* am Rhagfyr diweddaf, rhaghysbyswyd ni y busai y Parch. Daniel Davies, gweinidog y Bedyddwyr yn Ebenezer, ger Eglwyserw, dalu ymweliad â Llandudoch, i'r dyben o bregethu pregeth amddiffynol i'r un soniedig; yr hyn hefyd a wiriwyd hwyr Sul y 5ed o Chwefror diweddaf, pryd, yn unol a disgwyliad y gynulleidfa, y gwnaeth ei ymddangosiad: ac i ddechreu ar y gorchwyl, cymerodd ei destun o Rhuf. ix., a'r rhan olaf o'r 5ed adnod, "Yr hwn sydd uwchlaw pawb yn Dduw bendigedig yn oes-oesoedd, Amen."

Rhoddwn i chwi grynodeb o'r rhai a ystyriwn ei brif bethau, fel y canlyn:—

1. Na ddarfu Paul, na neb o'r Apostolion eraill, erioed ysgrifenu am danynt eu hunain y geiriau, "yn ol y cnawd;" a bod y geiriad yna yn profi Duwdod Crist.

2. Fod gan ein Harglwydd Iesu Grist allu o hono ei hun i ddyfod neu beidio dyfod i'r byd: a'r adnod a ddygodd er profi ei osodiad oedd, "Canys ni chymerodd efe naturiaeth angelion; eithr had Abraham a gymerodd efe;" a bod hyny yn profi ei fod yn Dduw.

3. Fod yn rhaid fod Crist yn Dduw, cyn y gallai fod wedi creu yr "haul ysblenydd, y lleuad dêr, yr afon ddolenog," &c., &c. A'r profion a ddygodd dros hyna oeddent Ioan i. 3, "Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd;" a Colossiaid i. 16, "Canys trwyddo ef y crewyd pob dim a'r sydd yn y nefoedd ac sydd ar y ddaear," &c.

4. Mai nid fel *dyn* yr ydoedd yr Iesu yn dderbyniwr oddiwrth ei Dad, ond fel *Cyfryngwr;* ac nad oedd fod yr Iesu yn dderbyniwr yn gwrthbrofi ei Dduwdod, mwy na phe byddai brenin yn cael ei eneinio yn frenin drachefn yn gwrthbrofi ei fod yn frenin o'r blaen, &c.

5. Fod yr Iesu fel Duw yn hollwybodol, ond fel dyn yn anwybodus o ddydd y farn, am y gwyddai mai efe fyddai y Barnwr.

6. Fod rhyw un wedi adolygu Pregeth y Parch. J. P. Williams, yn y cyhoeddiad hwnw sydd gan yr Undodiaid a elwir yr *Ymofynydd;* a bod y beirniad yn siarad yn gecrus am bregeth Mr. Williams; ac nas gwyddai beth ddarfu i'r brawd Williams ddweyd o le, pan y dywedodd y pethau a *welodd* Paul yn y drydedd nef. Ac i roddi perffaith foddlonrwydd i'r gwrandawyr, dygodd Mr. Davies gyfieithiad Groeg o'r 4dd adnod o 2 Cor. xii., "Ei gipio ef i fynu i baradwys, ac iddo *glywed* geiriau annhraethadwy"—(cyfieithiad Mr. Davies, "geiriau *anmhosibl*"). Ac mewn cysylltiad â hyn y dywedodd fod ei destun yn brawf digonol beth ddarfu Paul *weled* yn y drydedd nef, sef ei fod yn galw yr Iesu yn "Dduw uwchlaw pawb."

7. Fod y beirniad yn dweyd mai derbyn y gallu i greu a wnaeth yr Iesu; ond, meddai, nid oedd air o son am hyny yn nhestun Mr. Williams a'i gysylltiadau; ac meddai, cyn y gallai greu pob dim, byddai yn angenrheidiol ei fod yn bodoli 4004 cyn ei eni.

Cymmaint a hyna a ystyriwn ei brif bethau. Cymerodd Mr. Davies gymaint o ofal wrth amddiffyn pregeth Mr. Williams ag a gymerodd Mr. Williams ei hun rhag dyfod at y prif bwynt yn nghysylltiad ei destun—"Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef." Ni wnaeth Mr. Davies nemawr ddim amddiffyniad i'r bregeth, ac mor lleied a hyny o adolygiad ar y nodiadau yn yr *Ymofynydd;* ond disgwyliwn y bydd iddo fyned rhagddo etto, nid yn unig trwy bregethu, ond hefyd trwy ysgrifenu fel dyn ar y pwnc.

Yr ydwyf yn awr yn cyflwyno y grynodeb i sylw rhyw un o'ch gohebwyr dysgedig, gan daer erfyn oddiwrtho y sylwadau a welo yn gymmwys.

Dudoch.

Mr. Gol.,—Yr wyf yn un o dderbynwyr yr *Ymofynydd,* ac yn cael llawer o bleser wrth ei ddarllen, a goleuni ar bethau ag oedd yn dywyll yn flaenorol. Yr wyf am i chwi neu rai o'ch gohebwyr deallus i wneuthur ychydig sylwadau ar Luc xxiii. 43. Yr ydwyf yn gwybod pa beth yw meddwl y byd yn gyffredin ar y testun, ac yr wyf am gael eich meddwl chwithau hefyd. E. D., *Cellan.*

Hanesion Gartrefol a Thramor.

Y Reform Bill.—Y mae'r *Reform Bill* a ddygwyd i mewn gan Arg. John Russell yn bur debyg o bassio, a hyny o herwydd dau reswm: Nid yw y cyfnewidiadau a gynnygia yn myned gymaint ymhellach na'r hyn a gynnygiwyd gan blaid Arg. Derby, fel ag i roddi iddynt esgus digonol i'w wrthwynebu yn unionyrchol. Y maent hwy a'r blaid wrthwynebol ag sydd yn awr mewn awdurdod wedi cydnabod yr anghenrheidrwydd o ryw welliant ar y drefn bresennol o gynrychiolaeth. Ac er fod Ty yr Arglwyddi, oddiar eu cyfansoddiad, yn naturiol wrthwynebol i gyfnewidiadau gwladwriaethol, diau y byddai yn dda ganddynt gael llonyddwch oddiwrth ddadleuaeth ag sydd mor flinderus iddynt, ac o bosibl bydd yn well ganddynt bassio Bill mor gymhedrol â hwn o eiddo Arg. J. Russell na chael eu gorfodi i bassio un a fyddo yn waeth yn eu golwg. O'r tu arall, ymddengys fod y diwygwyr yn ymfoddloni ar dderbyn rhyw ychydig o welliant ar y drefn bresennol yn hytrach na chael bod heb ddim. Pa fodd bynag, mae ysgrif Arg. J. Russell yn cynnyg rhoddi *vote* i bob un sydd yn talu £6 o rent yn y bwrdeisdrefi a £10 yn y siroedd. Ac wrth hyn, yn ol y cyfrifon a ddychwelwyd, ychwanegir tua chan mil at nifer yr etholwyr, a hyny, gan mwyaf o lawer, o'r dosparth gweithgar. Ond nid oes nemawr neu ddim o frwdfrydedd na mawrserch wedi cael ei ddangos dros y *Bill*, nac yn ei erbyn, yn y senedd nac allan o'r senedd.

Yr Eglwys ac Ymneilldduaeth.—Y mae yn natur sefydliad eglwysig gwladwriaethol i sefyll yn dyn dros gadw i fynu ei huwchafiaeth dinasyddol, serch wrth hyny anmharchu a diraddio ymneilldduwyr yn ngwydd y wlad. Gallesid meddwl na fyddai yn un diraddiad na cholled i'r eglwyswyr iddynt beidio gwrthwynebu dilëad llwon difeddwl a diraid, megys y llw a ofynir i ymneilldduwr wneud wrth gymmeryd swydd wladwriaethol; sef, *nas gwna ddim yn erbyn Eglwys Loegr.* Dygodd Arg. Teynham ysgrif i mewn er dilëad y fath lwon; ond gwrthodwyd y cynnygiad gan yr Esgobion a'r Arglwyddi. Tebyg ei bod o fwy o bwys yn eu golwg hwy i gadw i fynu uwchafiaeth yr Eglwys, hyd yn oed pan fyddo hyny ddim ond *mewn enw* yn unig, nag ydyw i symmud tramgwydd diachos, ac "hyd y mae ynom i fod yn heddychol â phob dyn." I effeithiau yr un yspryd achybus a hunan-geisiol rhaid i ni gyfrif gwrthodiad ysgrif ragorol Mr. Dillwyn ynghylch y cymmwysder a'r cyfreithlondeb o fod ymneilldnwyr i fod yn rhydd i gael eu dewis yn ymddiriedolwyr (*trustees*) ysgolion rhydd gwaddoledig. Y mae yn debyg y bydd yn rhaid iddynt aros am ennyd etto, a pharhau yn eu hymdrechiadau cyn y cyrhaeddont gydnabyddiad cyfreithiol o'u hawliau dinasyddol.

Y mae'r eglwyswyr selog, yn offeiriaid, arch-ddiaconiaid, &c., trwy gyrrau'r wlad, wedi bod yn gwneud ymdrechiadau taer (fel pe byddai y waith olaf) er attal llwyr ddilead y Dreth Eglwys; ond hyd yma heb dycio, fgyda Ty y Cyffredin yr hyn lleiaf. Dydd Mercher y 28ain, llwyddodd Syr J. Trelawny i ddwyn yr ysgrif er llwyr ddilead i mewn i gomitti; ar pa bryd y pleidiodd 222 dros ddilead diammodol, ac yn eu plith Arg. Palmerston ac Arg. J. Russell. Yn ei erbyn nid oedd ond 49. Pa beth fydd tynged yr ysgrif yn Nhy yr Arglwyddi, nis gwyddom. Y mae Mr. Gladstone hyd yma wedi bod yn llwyddiannus gyda'i gynnygiadau pwysig parth trethi'r wlad. Y mae y cyttundeb *(treaty)* â Ffrainc wedi cael ei gymeradwyo, ond nid heb alw allan areithiau rhagorol yn y ddau Dy, yn beio ar rai diffygion pwysig, ac yn condemnio yn ddiarbed amcanion ac ymddygiad hunan-geisiol Ymherawdwr Ffrainc, yn matter Nice a Savoy.

Y Cyfandir.—Gartref y mae sefyllfa pethau gwladwriaethol yn bur dawel a gobeithiol. Y mae dymuniadau a gobeithion y bobl a'r llywodraeth am barhad heddwch, ac â Ffrainc yn enwedig. Ond y mae amddiffyniadau y deyrnas yn parhau i fod yn wrthrych gofal pryderus i'r Weinyddiaeth ac i'r wlad yn gyffredinol. Ymddengys nad yw y gwaith o ffurfio *Rifle Corps* ddim ond newydd ddechreu

braidd; ac wrth bob tebygolrwydd bydd yr awydd i ddysgu trin arfau milwrol i fyned ar gynnydd dros ennyd etto. Rhaid addef ei bod, yn nghyflwr presennol Ewrop, yn beth dymunol fod y bobl wedi eu haddysgu a'u hyfforddi fel ag i fod yn alluog i amddiffyn eu gwlad yn erbyn unrhyw ymosodiadau gelyniaethol. Etto nid ellir gwadu fod drwg, neu yn hytrach drygau mawr yn nglŷn â "dysgu rhyfel." Y mae'n tueddu i fagu yspryd rhyfelgar a chynhenllyd, ac i arwain dynion ieuainc i oferedd meddwl ac anfoesoldeb. Edrychir maes o law, ond odid, ar y gwaith hwn ynghyd a'r adroddiadau a'r areithiau ymffrostgar yn ei gylch, gan y Ffrancod yn neilldiol, fel math o hèr barhaus, iddynt ddyfod trosodd os beiddiant. Y goreu a ellir ddywedyd am y drwg hwn ydyw, ei fod yn anocheladwy yn sefyllfa bresennol y byd.

Yn y gwledydd tramor mae sefyllfa pethau yn dra bygythiol. Y mae y gwaith o gysylltu Nice a Savoy â Ffrainc wedi peri cryn anesmwythder. Dygwyd hyn oddiamgylch trwy drachwant a rheibusrwydd a thwyll Louis Napoleon. Yr oedd efe, mae'n debyg, er ys talm wedi chwantu cael y taleithiau hyn, trwy ryw fodd, dan ei lywodraeth, er mwyn cael ffordd agored i Italy dros yr Alps. Darfu i'r Weinyddiaeth a'n seneddwyr, yn y ddau Dŷ, wrthdystio yn erbyn y fath weithred annghyflawn a haerllug; ond heb gael un effaith ar wr a wyddai'n dda nad elai Prydain Fawr i ryfel oddieithr yn ei hachosion ei hun. Ac heblaw hyn mae Brenin Sardina a'i gynghorwyr yn proffesu mai yn wirfoddol y maent yn trosglwyddo yr hen daleithiau etifeddiaethol hyn, i'w cyssylltu a Ffrainc.

Y mae taleithiau gogleddol Italy ar ymuno â'u gilydd i ffurfio teyrnas gref a chryno, dan Frenin Sardinia. Ond y mae Naples, yn y deheudir yn y cyflwr mwyaf enbydus. Y mae ymddygiad a llywodraeth y Brenin ieuanc yn fwy disynwyr a gormesol, os yn bosibl, nag eiddo ei dad. Bernir oddiwrth yr arwyddion presennol fod Naples ar fin chwyldroad dychrynllyd.

Y mae yn bur gyfyng ar y Pab yn Rhufain. Wedi blino bellach ar ei hen amddiffynwyr (y Ffrancod) y mae yn awr am eu gollwng i fyned adre; ac i osod ei hun dan amddiffyniad Brenin Naples, a hwnw yn y perygl mwyaf—megys ar ddibyn distryw. Darfu iddo esgymuno Brenin Sardinia; ond nid ydys yn gofalu llawer am hyny.

Y mae cyflwr Italy a'r Italiaid, yleni fel y llynedd, yn tynu sylw Ewrop yn gyffredinol.

CYFARFOD CWARTEROL YN Y WIG.—Cynhelir y cyfarfod hwn y Mercher a Iau cyntaf ar ol y Pasg. Bydd y cyfarfod nawn dydd Mercher i ddechreu am 6 o'r gloch. Y *station* nesaf ar y *South Wales* yw Penybont (*Bridgend*), oddeutu 5 milltir o'r Wig.

UNDODIAID SIR ABERTEIFI, A'R "DIWYGIAD."

Mewn llythyr a dderbyniasom oddiwrth gyfaill (T. G.) y mae efe yn gweinyddu'r fflangell i "Mr. O.", (gwel tudal. 73,) am ei waith yn cynnyg rhoddi anair i'w gymmydogion mewn cymmydogaeth bellenig. Gyda pharch dyledus i'n gohebydd, barnwn y gellir arbed y fflangell bellach y tro hwn, ar ol yr ychydig sylwadau a wnaeth "J. C." yn ei ffordd dawel ef. Digon tebyg nad oedd "Mr. O." yn ei frwdianwch yn breuddwydio y delai yr athrod i glustiau ei gymmydogion. Nid yw darllenwyr yr *Ymofynydd* yn gofalu pwy yw Mr. O., na beth yw ei alwedigaeth na'i gymmeriad yn ei gymmydogaeth ei hun. Ac, yn ein golwg ni, nid yw yn un anair i ddywedyd am Undodiaid Sir Aberteifi "eu bod mor galed" neu mor bwyllog, "fel nad oedd argyhoeddiadau y diwygiad" neu y gwylltineb "diweddar yn cyffwrdd â hwynt."—GOL.

Barddoniaeth.

GWAHODDIAD I'R YSGOL SUL.

Ton,—"Beynon Polka."

Cyfansoddwyd y ddau bennill hyn ar gais Mr. T. Beynon, blaenor "Band of Hope" Cefncoedycymmer, i'r Don a enwyd, yr hon sydd o'i gyfansoddiad ei hunan.

Deuwch blant, deuwch blant, 'nawr i'r Ysgol,
Gyda ni, er eich bri, deuwch oll,
Deuwch ffwrdd tua'r Cwrdd, ieu'netyd siriol,
Gan rhag braw ochel draw ffyrdd y coll;
Os y dewch, gwynfyd gewch, a gwych goron,
Yn ddi loes, trwy eich oes, hyd y bedd,
Ac o'r bedd, Brenin hedd eilw 'i weision,
At ei Dad, i hoff wlad bythol wledd.

O un fryd, dewch i gyd, chwi rieni,
At y Sant, á'ch hoff blant yn eich llaw,
Chwi sy'n drist, dewch at Grist i'r goleuni,
Yna 'n rhad, cewch rhyddhad, o'ch holl fraw;
Gwynfyd gawn, os y gwnawn 'nol ei archiad,
Ac yn glau, dan ei iau fyw mewn hedd,
Pawb a wnant hyn a gant y gwahoddiad,
At ei Dad, i hoff wlad bythol wledd.

Trecynon. Cynonwyson.

CYNGHOR I'R GOBAITH LU.

Ton—"Old Dog Tray."

Chwi blant y Gobaith Lu,
Ffowch o'r tywyllwch du,
I'r Ysgol Sul am addysg glwys;
Cyfeillach plant fo'n ddrwg,
Gofidiau i chwi ddwg,
A siomedigaeth dost a dwys.

O! rhowch glust i fy nghynghor,
A ffowch rhag rhai drwg eu moes.
O cofiwch, blant i gyd,
Na fyddwch unrhyw bryd,
I'ch tad a'ch mam yn draws na chroes.

Meddyliwch ddweyd y gwir,
Ac arfer iaith fo'n bur,
A bod yn ufudd ar bob cam,
Dylynwch 'r hyn sydd dda,
Heb ddwedyd fyth "Na, na,"
Un amser wrth eich tad a'ch mam:—
O! rhowch glust, &c.

Rhag bod á meddwl trist,
O dewch at Iesu Grist,
A cheisiwch ddysgu 'i gyfraith ef,
Rhaid gwneud ei gyfraith lân,
Bawb oll yn fawr a mân,
Cyn cawn ein gwa'wdd i deyrnas nef:—
O! rhowch glust, &c.

Trecynon. Cynonwyson.

ANNERCHIAD

I Mr. John Jenkins, Penbryn Ystrad, ar farwolaeth ei briod, Ion. 24ain.

Collaist ran o gysur bywyd,
Collaist fam i ddeg o'th blant,
Un i'th fynwes fu'n anwylyd,
Er pob ymdrech hedodd bant;
Cofio ilais, a gwaith e i dwylo,
I chyngor hoff, a dull ei gwedd,
Mynych, mynych, wnaiff drosglwyddo,
Dy fyfyrdod at ei bedd.

Achwyn 'r ydym heb fawr achos,
A'i dywyniad haul ein byd,
Heb ystyried gall tywyllnos,
Ein cyfarfod ar bob pryd;
Mae'n cynneddfau mor ddiffygiol,
Fel nas gwyddom p'un o'r ddau,
Ar ein taith sydd fywaf llesiol,
Er daioni i barhau.

Treiddio dyfnder dy deimladau,
Nis gall euog, na dinam.
Clywed fyddi, ar amserau,
Lais yn gofyn "b'le 'r aeth mam?"
Er diddymu rhan o'th gysur,
Cariad yr anfeidrol yw;
Llygad ffydd, tu hwnt i natur,
Wel d'anwyl briod etto'n fyw.

Trefnwyd amser i alaru,
Rhoddwyd rheawm ini'n llyw,
Cafwyd amser gorfoleddu,
'N un a synwyr dynolryw;
Rhoed efengyl i'n fyfyrio,
Geiriau hon sy'n llawn o hedd,
Colyn angau gas ei ddryllio,
"Buddugoliaeth ar y bedd."

Amnon dy Frawd.

DAU BENNILL,

Uwch ben bedd yr enwog Fardd Gwilym Harry, Penderyn, Swydd Frycheiniog.

Dyma fedd y gorwedd gwron,
Un o'r beirddion goreu'i o's,
Gan yr angau yn yr eigion,
Yn y clai, dan gloion clos;
Ni cheir bellach ei gyfeillach,
Llechu mae yn llwch y llan,
Gwr a'i awen oedd mor fywiol,
Heddyw'n farwol,—dyma'r fan!

Er i'r gwron gael ei gladdu,
A'i hollol faeddu'n hyn o fan,
Duw a'i cyfyd etto i fywyd,
Mae'r addewid ar ei ran,
I gyd-oesi, am hir oesoedd,
Gyda'r Iesu, cyfaill cu,
Yn ngororau gwlad goleuni,
Heb ofni mwy yr angau du.

TOMAS AB GWILYM.

Trecynon.

ENGLYNION Y FFON.

Yr hon a dderbyniodd yr awdwr yn anrheg oddiwrth Mr. Jacob Rees, Ivy Bush, Llandybie.

Ffon dderwen, hardd ysblenydd,—a roes un
Jacob Rees i'r Prydydd;
Galwaf hon yn "Ffon y Ffydd,"
A phenaf amddiffynydd.

Ffon gref od, hynod yw hi,——o fesen,
Rhof fy mhwysau arni;
Daeth ar ol ei chaboli,
Y lwysaf ffon a welais i.

Buddiol yw ffon rhag boddi,—neu gwympo,
Un gampus mewn c'ledi;
Ni chaf o Dâf i Deifi,
Ffon lanach, harddach na hi.

A'm ffon fraisg, dew, curaf lewod,—a chwn,
Ochain wna'r bwystfilod;
Hen ladron duon fo'n dod,
O'm dwrn gânt brofi'm dyrnod.

Cnau dynaf wrth y canno'dd,—ac eirin,
Rhai goreu addfedodd:
Gwr da i mi a'i gyrodd,
I'r eithaf mae wrth fy modd.

RHYDDERCH FARFGOCH.

Llandybie.

MOESGARWCH.

Moesgarwch sydd addurn doethineb,
A llywydd cysuron y llawr,
A'i feddu sydd fil mwy dymunol,
Na gwenau hyfrydol y wawr;
Lle gwelir Moesgarwch, yn wastad
Ceir pardeb a chariad a hedd,
Yn agor eu blodau ireiddiawl,
O'r aelwyd iselaf i'r sedd.

Moesgarwch sydd berl gwerthfawrocach,
Na chynyrch aur-gloddiau y byd,
Yn rheol fawreddog i'w dilyn,
A muriau rhag balchder a llid;
Prydferthwch y wyryf rinweddol,
A choron henafgwr, mewn gair,
Yn ddolen ynghadwyn dynolryw,
Neu rwymyn pur ydyw o aur.

Aberdar. D. DDU.

YR HEDYDD.

Dysgawdr mawl rhwng gwlwl a gwyll,
Disgyn nawdd Duw ar d'esgyll.
Cathl lan a diddan yw'r dau,
Gethlydd awenydd winau.

D. AB GWILYM.

ADGYFODIAD Y MEIRW.

Cyfyd fal ŷd o fol âr,
Gnwd tew eginhad daiar,
A'r môr a ŷr o'r meirwon
Fil myrdd uwch dyfnffyrdd y don.

GORONWY OWAIN.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.